# Newid Bywydau



## Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/22

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad** | 3 |
| **2. Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr** | 5 |
| **3. Sut y mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?** | 12 |
| **4. Hybu a Gwella Lles pobl rydyn ni'n eu helpu** | 19 |

A. Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl eisiau eu cyflawni

B. Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hybu lles corfforol a meddyliol pobl a lles emosiynol

C. Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustra neu niwed

D. Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

E. Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel

F. Gweithio gyda a chefnogi pobl i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diallu eu hanghenion.

**5. Sut rydym yn gwneud yr hyn rydym yn ei wneud** 35

A. Ein gweithlu a sut rydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol

B. Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio

C. Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraeth ac atebolrwydd

**6. Casgliad** 46

- Cael hyd i Wybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol

# CYFLWYNIAD

## ‘Newid Bywydau’

Dyma’r pumed Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol a baratowyd dan ofynion newydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a’r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae’r adroddiad yn delio gyda’r cyfnod Ebrill 2021 hyd at fis Mawrth 2022.

Dyma fy adroddiad cyntaf fel Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a Thai, ar ôl cymryd y swydd fel un interim ym mis Mawrth 2022 ar ôl ymddeoliad y Prif Swyddog blaenorol a oedd wedi bod yn ei swydd am gyfnod hir. Byddai’n esgeulus peidio a chydnabod gwaith caled ac ymdrechion fy rhagflaenydd, a’r grym gyda’r hwn yr arweiniodd y gwasanaeth, yn enwedig drwy gydol y pandemig.

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o’r sefyllfa bresennol, datblygiadau i’r dyfodol, a'r dyheadau, a rhai o’r heriau a’r risgiau allweddol sydd angen ffocws parhaus. Rydym yn gweithio mewn tirlun cyfnewidiol ac mae’r risgiau a’r heriau hyn yn ddeinamig ac yn effeithio ar weithrediad gwasanaethau o ddydd i ddydd wrth i ni anelu at ddarparu ystod ymatebol llawn o wasanaethau i’n cymunedau.

Y llynedd (21/22) gwelwyd gweithrediad y fframwaith data perfformiad newydd sy’n alinio gyda’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Deddf GCLl). O ran data, y llynedd cychwynnwyd ar sero, felly y flwyddyn hon fydd y gyntaf lle mae gennym ddata cymharol.

Mae gennym ffocws newydd o fewn y maes gwasanaeth ar berfformiad ac rydym wedi datblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd sy’n golygu bod gwybodaeth reoli allweddol ar gael yn hawdd, ac yn bwydo gwybodaeth i gyflenwi a datblygu gwasanaethau. Mae hyn yn cael ei ehangu i ymgorffori’r maes gwasanaeth ehangach a bydd yn bwydo i mewn i flaenoriaethau a gwaith cynllunio’r gyfarwyddiaeth ac yn gorfforaethol.

Mae’r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn heriol i’r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae’n debygol y bydd effaith y pandemig yn para ac yn cynrychioli her barhaus. Rwy’n hynod falch o’n gweithlu; mae eu hymrwymiad a’u hymroddiad yn wyneb sefyllfa anodd yn rhywbeth i’w ganmol. Maent yn parhau i ymateb ac adweithio i’r pandemig bob dydd, wrth i ni i gyd ddysgu “byw” gyda COVID. Mae eu gallu i barhau i ganolbwyntio ar y bobl rydym yn eu cynorthwyo yn hynod ac maent wedi parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Mae’r gweithlu, er ei fod wedi amrywio ac wedi lleihau ar adegau, wedi addasu ac wedi ceisio cyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel.

Wrth gydnabod gwaith caled ac ymdrechion y gweithlu ar draws y sector, rwyf hefyd yn cydnabod gwytnwch ac ymdrechion y cymunedau lleol drwy gydol cyfnod mor heriol a digynsail.

Mae heriau parhaus ar draws y cyfan o Ofal Cymdeithasol ac Iechyd. Bydd y llwybr allan o’r pandemig yn parhau i gyflwyno heriau, a’r argyfwng costau byw yr un modd.

Fel cyfarwyddiaeth ac fel Awdurdod Lleol, ac mewn cydweithrediad gyda'n hasiantaethau partner, ein nod yw delio gyda'r heriau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gyflenwi a datblygu ymhellach y gwasanaethau effeithiol sy'n diwallu anghenion ein dinasyddion, wrth hyrwyddo diogelwch, gwytnwch cymunedol ac annibyniaeth.





**Jason O'Brien**
**Prif Weithredwr Gweithredol Gofal Cymdeithasol a Thai**
**Medi 2022**


## 2. CRYNODEB O BERFFORMIAD GAN Y CYFARWYDDWR


Mae'r Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai wedi ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i'r galw anferth yn deillio o'r pandemig Covid dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er gwaethaf yr heriau a'r newidiadau o ganlyniad i sut rydym wedi gorfod gweithio ac ymateb, mae gwasanaethau wedi eu cyflenwi i safon uchel. Wedi dweud hynny, bydd rhai agweddau o'n perfformiad wedi eu heffeithio gan y galw ychwanegol, ynghyd â salwch staff cysylltiedig â Covid ar draws y sector. Mae hyn wedi achosi i ni adleoli staff ar achlysur i leddfu'r pwysau mewn rhai rhannau o'r system ac i sicrhau bod gwasanaethau craidd yn parhau i gael eu cyflenwi.

Mae dealltwriaeth eang o hyd o'r pwysau sy'n cael ei wynebu gan y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys y sector gofal annibynnol. Mae'r gallu i recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol wedi cyrraedd pwynt o argyfwng. Mae'n her a wynebwyd gennym drwy 2021/22 ac yn parhau, er gwaethaf strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddenu pobl i yrfaoedd gofal cymdeithasol. Rydym yn canolbwyntio ar liniaru'r risgiau gyda chynllunio cadarn ond er gwaethaf yr ymdrechion gorau ar draws y sector cyfan, mae prinder gwirioneddol o hyd o oriau gofal a chymorth yn y gymuned. Rydym yn cydnabod bod y system gyfan wedi ei heffeithio ac rydym yn parhau i weithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddatblygu dulliau o recriwtio'n effeithiol yn fewnol a chynorthwyo ein darparwyr i redeg gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd a recriwtio a chadw eu staff.

Mewn amgylchedd newidiol a deinamig, mae'r gyfarwyddiaeth gofal cymdeithasol wedi adolygu ei mesurau perfformiad mewnol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddefnyddio'r data a'r wybodaeth gywir er mwyn bwydo gwybodaeth i ac arwain at gyflenwi gwasanaeth.

Pwysau allweddol i ni yn y maes gofal cymdeithasol oedolion yw argaeledd yr oriau gofal ac mae hynny'n parhau. Mae hyn yn dal yn broblem ranbarthol a chenedlaethol ac yn un sydd oruchaf wrth gynllunio.
Mae'r tabl isod yn dangos yr oriau gofal sy'n aros i gael eu comisiynu yn y gymuned. Mae mwyafrif yr oriau hyn yn cael eu darparu gan ein timau mewnol byrdymor, ond mae angen eu darparu yn y tymor hirach gan y darparwyr annibynnol fel bod pecynnau gofal yn gallu llifo a, lle'n addas, eu lleihau ar draws y system gyfan.




Mae’r gyfarwyddiaeth wedi dangos ymrwymiad i drawsnewid a moderneiddio sut rydym yn comisiynu a darparu cymorth. Rydym, er gwaethaf y pwysau parhaus o’r pandemig a’r cynnydd mewn galw a chymhlethdod, wedi agor Hwb Cymunedol Tŷ Glas Y Dorlan sy’n rhoi tystiolaeth i ac yn cryfhau ein gwaith partneriaeth gyda’n cydweithwyr yn y sector iechyd ac sy’n cynrychioli dull gwahanol o ran darparu gofal seibiant, galluogi i unigolion fyw a gweithredu gan hyrwyddo lefel uwch o annibyniaeth. Mae Tŷ Glas yr Dorlan yn llety arhosiad byr i oedolion, gan ddarparu i ddefnyddwyr gwasanaeth eu “drws ffrynt” eu hunain tra byddant yn aros yno, gyda’r nod o ddarparu profiad personol ac annibynnol. Mae cymorth gofal ar y safle sydd wedi ei ddylunio i gynyddu a lleihau i ddiwallu anghenion yr unigolyn, a chefnogi cyflawni amcanion a chanlyniadau personol.

Rydym yn parhau i gynnal Tîm Trawsnewid Gwent a’r Tîm Partneriaeth Rhanbarthol a gweithio’n strategol gyda’n Cynghorau cyffiniol i gryfhau ein dulliau o ddatblygu gwasanaeth a cheisio cyfleoedd i gydweithredu ledled Gwent.

Mae’r system waith hyblyg seiliedig ar ardal yn y Gwasanaethau Oedolion yn parhau i ddangos nifer o gryfderau. Mae’r timau yn adnabod eu cymunedau a’r bobl, y gofalwyr, staff proffesiynol eraill a’r partneriaid ynddynt. Mae hyn yn eu galluogi i ymateb yn gyflym a chael sgwrs amserol o ran ‘beth sy’n bwysig’, darparu

gwybodaeth, cyngor a chymorth ac ymyrryd lle bo angen i adnabod angen cyn gynted ag y bo modd. Daeth y modd hwn o weithio yn wreiddiol i fodolaeth allan o’r angen i feddwl yn fwy creadigol a rheoli galw yn fwy effeithiol. Rydym wedi adeiladu ar y sgiliau a’r arferion gwaith dros y pum mlynedd ddiwethaf, ac rydym wedi gweld effaith bositif ar forâl staff wrth iddynt weithio’n agosach gyda’r gymuned. Byddwn yn parhau i adolygu a datblygu ein dulliau i sicrhau bod gennym y systemau gorau ar waith i reoli galw a sicrhau ein bod yn gallu dyrannu adnoddau lle mae eu hangen. Byddwn hefyd y sicrhau bod ein perthynas gyda’n cydweithwyr yn y gyfarwyddiaeth Cymunedau yn gynhyrchiol er mwyn sicrhau’r lefel briodol o hep a chymorth a bod gwasanaethau statudol yn cael eu darparu i’r sawl sydd â’r lefel uchaf o angen.

Mae’r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd wedi gweld ac ymateb i her arwyddocaol oherwydd effaith barhaus y pandemig cenedlaethol, gyda’r galw a’r cymhlethdod yn cynyddu. Mae’r adran wedi mabwysiadu practis ar sail asesu cryfderau a risgiau i blant a theuluoedd yn Nhorfaen. Mae’r adran wedi gweithio’n rhanbarthol i rannu arferion da, dysgu, herio a sicrhau cysondeb practis. Datblygwyd ystod o brosiectau rhanbarthol ledled Gwent er mwyn sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau, economi graddfa a chysondeb gweithredu.

Mae’r adran hefyd wedi parhau i ganolbwyntio ar reoli galw ar y gwasanaeth wrth y drws ffrynt a thrwyddo draw, i’r pwynt lle mae plant angen gofal. Mae’r adran wedi ymgymryd â darnau arwyddocaol o waith a hyfforddiant gyda'r nod o newid arferion fel bod ymarferwyr yn teimlo’n ddiogel yn defnyddio barn broffesiynol a chymryd y penderfyniadau cysylltiedig gyda risg gytbwys, a chan gydnabod y cryfderau o fewn teuluoedd a chymunedau.

Mae gweithrediad yr Hwb Cymorth ac Amddiffyn Aml-asiantaeth (MASSH) yn 2019, a’i ddatblygiad parhaus wedi bod yn effeithiol o ran darparu prosesau cymryd penderfyniadau cyson y gellir eu hamddiffyn. Mae’r MASSH yn hwb sy’n datblygu ac esblygu drwy'r amser.

Mae’r gwasanaeth Troseddu Ieuenctid (YOS) wedi peilotio adnoddau / gweithwyr penodol i weithio gyda MASSH a darparu gwasanaethau rhwystro i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy’n cael eu cyfeirio i MASSH ond sy’n bodoli’r meini prawf ar gyfer ymyraethau rhwystrol YOS.  Mae’r YOS wedi parhau i leihau nifer y bobl ifanc sy’n mynd i’r system cyfiawnder troseddol drwy eu mesurau rhwystrol, gyda 27 o blant a phobl ifanc yn mynd i’r system cyfiawnder troseddol yn 2021/22 o gymharu gyda 37 y flwyddyn flaenorol.


Rydyn ni wedi parhau i weithio gyda phlant sydd ag anghenion dwys a chymhleth sydd angen gwasanaethau arbenigol gan ddarparwyr profiadol.  Mae’r pecynnau gofal cymhleth yma’n parhau i effeithio’n sylweddol ar gyllideb Gofal Cymdeithasol. Rydym wedi gweithio ac yn parhau i weithio yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl yn y maes hwn. Mae’r Arweinydd Gofal Parhaus ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Torfaen, wedi ei leoli gyda’r Tîm Plant ag Anableddau, wedi parhau i adolygu a, lle bo angen, herio ymatebion aml-asiantaeth i’r achosion mwyaf cymhleth.

Dros y 18 mis diwethaf, mae gwaith sylweddol wedi ei wneud i adolygu a datblygu trothwy o angen yn y Gwasanaeth plant a Theuluoedd i hyrwyddo ymhellach y broses o gymryd penderfyniadau cyson ar draws yr isadran. Mae hyn wedi ei ddatblygu a’i

gymeradwyo i'w ddefnyddio ar gyfer fframwaith practis seiliedig ar gryfderau. Mae hyn, yn ei dro, wedi ei ddatblygu a'i gyflwyno ar draws yr isadran gyda holl staff gwaith cymdeithasol ac asiantaethau partner perthnasol yn cael eu hyfforddi ar sail raddol yn dibynnu ar swyddogaeth a rhyngweithiad gyda phlant a theuluoedd.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar y plant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau ein bod ond yn "gofalu" am blant lle mae angen hynny mewn gwirionedd. Tra rydym yn parhau i flaenoriaethu ein cyfrifoldebau amddiffyn, rydym yn cydnabod bod gennym ormod o blant sy'n derbyn gofal. Mae'r ymdrechion i newid practis a sicrhau penderfyniadau seiliedig ar gryfder ym mhob rhan o'r system wedi gweld mwy o blant yn gadael y system ofal mewn blynyddoedd diweddar, gyda 57 o Orchmynion Gofal yn cael eu gollwng yn 2021/22 o gymharu gyda 10 yn 2019/20 ac 11 gorchymyn yn cael eu gollwng yn 2020/21.

O ganlyniad i'r datblygiadau parhaus yn y gwasanaethau plant a theuluoedd, am y tro cyntaf mewn saith mlynedd, rydym wedi gweld gostyngiad net yn ein poblogaeth o blant sy'n derbyn gofal, gan orffen y flwyddyn gyda 407 o blant yn derbyn gofal o fan cychwyn o 446 (a nifer uchaf blaenorol o 474).




Oherwydd yr heriau ariannol parhaus sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yng Nghymru, rydyn ni, ar y cyd â sefydliadau eraill, yn parhau i weithredu mewn dull sy'n cyfateb i gyfrifoldeb corfforaethol o ran cyllideb gytbwys yn ystod 2021/22. Mae'r Cyngor, gan gydnabod y rôl hanfodol rydym yn ei chwarae o ran amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, wedi gallu darparu amddiffyniad cymharol i gyllidebau rheng flaen Gofal Cymdeithasol ac Addysg, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol. Roedd hyn yn dal i gadael gofyniad am arbedion ar draws Gofal Cymdeithasol a Thai, wrth wynebu galw a chymhlethdod digynsail am ein gwasanaethau.

Mae maes mawr o bwysau cyllidebol yn ymwneud a'r ffioedd rydym yn eu talu i'n darparwyr, wrth i'w costau nhw gynyddu. Ymgymerwyd ag adolygiad manwl o'r ffioedd rydym yn eu talu mewn perthynas â gofal preswyl a nyrsio gyda phartneriaid. Cafodd

yr holl ffioedd ar gyfer 2022/23 eu huwchraddio i adlewyrchu adduned Llywodraeth Cymru bod holl weithwyr Gofal Cymdeithasol rheng flaen cofrestredig yn derbyn y cyflog byw gwirioneddol. Mae hwn yn fater cenedlaethol ac, fel gwasanaethau cyhoeddus eraill, rydym yn dal i weithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr i ddeall yn well a lliniaru'r canlyniadau ariannol, gan ein bod eisiau sicrhau bod holl staff rheng flaen sy'n gofalu am ein trigolion mwyaf agored i niwed, yn cael eu talu'n briodol. Mae hyn yn parhaus i gael effaith uniongyrchol ar gynaliadwyedd rhai sefydliadau darparu gofal, sy'n ei chael yn gynyddol anodd i recriwtio staff, a hyfforddi a chadw'r arbenigrwydd hwnnw. At y dyfodol, byddwn yn canolbwyntio ar arolwg manwl o ffioedd darparwyr gofal yn y cartref mewn partneriaeth â rhanbarth Gwent.

**Uchafbwyntiau Allweddol**

- Rydym wedi cryfhau gwaith partneriaeth drwy ehangu'r MASSH (Hwb Cymorth ac Amddiffyn Aml-asiantaeth) gan ein galluogi i gryfhau ein gallu i sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn y cymorth priodol ar yr adeg briodol, gan osgoi gorfod eu symud i fyny a thrwy'r system.
- Mae'r arolwg gwasanaeth llawn o'r Tîm Lleoli Teuluoedd wedi dod i ben, ac mae achos busnes wedi ei ddatblygu. Bydd argymhellion, a gymeradwywyd ar ôl yr arolwg, yn sicrhau bod Gofalwyr Maeth Torfaen yn parhau i dderbyn lefel uchel o gymorth, gan wella sefydlogrwydd lleoliadau i Blant sy'n Derbyn Gofal a gwella ymhellach y defnydd o leoliadau maethu mewnol.
- Rydym wedi parhau i flaenoriaethu'r boblogaeth Plant sy'n Derbyn Gofal, drwy brosiectau megis y model practis seiliedig ar gryfder a'r broses o gyflymu gorchmynion rhyddhau. Mae hyn wedi sicrhau:
    - am y tro cyntaf mewn saith mlynedd, bu gostyngiad net yn y nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal,
    - bod mwy o bobl ifanc yn gallu aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.
    - ein bod wedi gallu lleihau defnydd a gwariant cyffredinol ar leoliadau preswyl yn unol â gwaith cynllunio unigol ar gyfer plant.
    - bod mwy o blant yn cael eu hadsefydlu yn ôl yn y cartref.

- Rydym wedi ymgorffori dull wedi'i adnewyddu o reoli perfformiad, sydd wedi datblygu lefel uwch o atebolrwydd ystyrlon fel y mae'n ymwneud â pherfformiad.
- Rydym wedi agor yr Hwb Cymunedol Gwasanaethau Oedolion sef Tŷ Glas Y Dorlan; dull arloesol o gynnig llety safon uchel, wrth ganolbwyntio ar alluogi pobl i gael lefelau gwell o annibyniaeth.
- Rydym wedi rhoi cymorth i'n cydweithwyr trydydd sector, gan feithrin perthnasau newydd a chryfach, adeiladu ar bartneriaethau a luniwyd drwy'r pandemig i ddelio gyda her ddigynsail a galw nawr ac i'r dyfodol.
- Gweithiodd y tîm llety dros dro gyda phartneriaid trydydd sector a landlordiaid i sicrhau bod pob person sy'n cysgu ar y stryd yn Nhorfaen yn cael cynnig llety diogel.
- Rydym wedi cynorthwyo a chynghori holl ddarparwyr ar y newid cyflym yn yr arweiniad ar yr ymateb cenedlaethol i'r pandemig
- Rydym wedi gweithredu dosbarthiadau CDP i gefnogi cartrefi gofal yn gyflym – gan weithredu llwybrau cyflenwi Brexit a gynlluniwyd. Rydym wedi cefnogi darparwyr gofal cymdeithasol gyda dosbarthiad mwy na 22.5m eitem o CDP ers cychwyn y pandemig.

**Heriau Cyffredinol yn 2022/23**

Mae'r gwasanaeth wedi adnabod heriau ac atebion a chamau gweithredu i liniaru;r rhain ar gyfer 2022/23:

| | Her | Ateb / Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| | | |
| 1. | Adferiad Gofal Cymdeithasol – bod â'r adnoddau a'r capasiti i gefnogi pobl, staff, darparwyr a chymunedau Torfaen i adfer a lliniaru effaith ganolradd a hirach y pandemig COVID. | Parhau i gomisiynu gwasanaethau drwy achosion Covid.<br>Parhau i gymryd rhan mewn ffrydiau gwaith cenedlaethol, rhanbarthol a lleol / prosiect su'n datblygu cynlluniau adfer |
| 2. | Cymhlethdod cynyddol achosion yn cael eu cyfeirio o fewn y system yn arwain at yr angen am fewnbwn arwyddocaol ac ymroddiad gan staff. Mae achosion cymhleth yn aml yn arwain at leoliadau cost uchel lle nad yw canlyniadau gwell bob amser yn cael eu cyflawni. | Datblygu Dull Aml-asiantaeth.<br>Gyrru gwaith partneriaeth ymlaen i wneud y mwyaf o'r canlyniadau i unigolion.<br>Ystyried opsiynau amgen i ddarparu gofal. |
| 3. | Breuder y Farchnad Gofal Cymdeithasol ac effaith unrhyw adael y farchnad gan ddarparwyr gofal cymdeithasol ar ein gallu i gomisiynu'r gofal y mae pobl ei angen. | Yn gysylltiedig â'r uchod, cynllunio a datblygu marchnad darparwyr cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar alluogi, canlyniadau i bobl.<br>Symud i ffwrdd oddi wrth gomisiynu yn seiliedig ar amser a thasgau i gomisiynu yn seiliedig ar ganlyniadau<br>Adeiladu ar y perthnasau positif sydd wedi datblygu dros y pandemig gyda'n partneriaid i weithio tuag at farchnad gynaliadwy sy'n galluogi pobl i fyw sut maent yn dewis byw.<br>Cymryd rhan mewn ffrydiau gwaith cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i yrru gwelliannau ymlaen yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. |
| 4. | Ansicrwydd ynglŷn â Chyllid Grant Byrdymor | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff ariannu eraill i alluogi i incwm grant gael ei dderbyn yn amserol fel bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio er mwyn gwneud y mwyaf o'r incwm a dderbynnir a chael canlyniadau i'r rhai mwyaf agored i niwed. |

| | Her | Ateb / Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| | | Adnabod y meysydd blaenoriaeth o ran buddsoddiad os bydd arian grant ar gael. |
| 5. | Sicrhau y gallwn recriwtio a chadw staff ar draws y maes gwasanaeth a gwasanaethau a gomisiynir, gan roddi capasiti i ni gyflenwi ein gwasanaethau.<br>Llesiant | Cysylltu gydag AD a'r tîm OD i adnabod strategaethau priodol i ddelio gyda'r problemau.<br>Cysylltu gyda'r bwrdd datblygu gweithlu rhanbarthol.<br>Parhau i weithio gyda chydweithwyr mewn Adnoddau Dynol i adolygu cynnig Torfaen i staff gwaith cymdeithasol.<br>Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a chydweithwyr rhanbarthol er mwyn sicrhau llif parhaus o staff gwaith cymdeithasol.<br>Adolygu secondiad / cyfleoedd noddi ar gyfer staff heb gymwysterau sydd eisiau cymhwyso.<br>Ystyried haeddiannau recriwtio staff gofal cymdeithasol o dramor.<br>Defnyddio staff gwaith cymdeithasol asiantaeth lle bo angen a lle mae ar gael.<br>Byddwn yn datblygu darganfyddiadau a phrosesau a sefydlwyd gan y swyddog recriwtio arbenigol. |
| 6. | Bydd yr argyfwng costau byw yn cynyddu'r galw ar wasanaethau ar draws y cyfan o ofal Cymdeithasol a Thai a Chomisiynu, a rhagwelir y bydd effeithiau ar sadrwydd ariannol darparwyr a nifer yr oedolion, plant a theuluoedd sy'n profi tlodi cynyddol. | Gweithio ar y cyd ar draws y cyngor i liniaru effaith r argyfwng costau byw i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn Nhorfaen. |

Mae hon wedi bod yn flwyddyn eithriadol o heriol i reoli a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, ond wrth i ni edrych i'r dyfodol, byddwn yn cymryd elfennau positif o'r cyfnod hwn ac adeiladu ar gryfderau a gwytnwch ein staff a'n cymunedau. Rwy'n gobeithio y bydd yr hyn rydych yn ei ddarllen yn yr adroddiad hwn yn cyfateb i'ch barn a'ch profiadau chi o gyflenwi gofal cymdeithasol yn Nhorfaen.

Rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel, mewn cydweithrediad ag asiantaethau partner a chyfarwyddiaethau eraill y Cyngor ac y byddwn yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o anghenion newidiol ein dinasyddion.

Wrth ganolbwyntio ar gyflenwi ein cyfrifoldebau statudol a sicrhau bod ein dinasyddion yn cael eu hamddiffyn a chael y canlyniadau gorau posibl, byddwn hefyd yn canolbwyntio ar wella gwytnwch cymunedau a chreu lefelau uwch o annibyniaeth er mwyn i'n dinasyddion allu rheoli eu bywyd a byw y bywyd maent eisiau ei fyw.

## 3. SUT MAE POBL YN LLUNIO EIN GWASANAETHAU?

Rydym yn defnyddio amrywio ffynonellau, sy'n cynnwys:

- Adborth o ddydd i ddydd,
- Cwynion a chanmoliaeth,
- Holiaduron,
- Rydym hefyd yn casglu straeon ac enghreifftiau byd go iawn sy'n ffurfio rhan o'r adroddiad hwn ac yn adrodd y stori o safbwynt yr unigolyn.

Ym mis Mawrth 2020, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru bu i ni adael ein Cyfleoedd Dydd mewn adeiladau a chyflwyno dulliau cyflenwi newydd, Drwy gydol 2021/22 bu i ni gydnabod bod adfer o Covid yn rhoi cyfle i ystyried, dysgu, gwneud pethau'n wahanol a gwneud pethau gwella. Adeiladwyd yn ôl yn well drwy gyd-gynhyrchu cynnig newydd gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu cefnogwyr, ein staff a'n partneriaid drwy drawsnewid rhan o'r system. Cawsom gyfle i stopio am ennyd ac adolygu Cyfleoedd Dydd a gweithio gyda defnyddwyr a gofalwyr i weld "beth sy'n gwneud diwrnod da". Gwrandawsom ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr er mwyn llunio darpariaeth gwasanaeth ac opsiynau cymorth cymunedol. Mae ymgysylltiad cymunedol a chyd-gynhyrchu yn allweddol i gyflawni newid llwyddiannus a chynaliadwy. Rydym yn cydnabod y bydd rhai pobl gyda chyfathrebiad cyfyngedig angen eiriolwr sydd wedi ei hyfforddi'n addas i gynorthwyo gydag ymgysylltiad effeithiol.

Rydym wedi parhau i wella'r mecanweithiau a ddefnyddir i gysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, teuluoedd a darparwyr. Rydym wedi gweithio'n dda gyda'r holl randdeiliaid i sefydlu perthnasau positif a datblygu atebion a gyd-gynhyrchwyr, er enghraifft, matiau siarad ar gyfer y sawl sydd â chyfyngiad ar eu cyfathrebu. Mae hyn wedi rhoi gwell dealltwriaeth i ni o anghenion cwsmeriaid, wedi ysgogi ymatebion mwy creadigol ac agored, ac mae tanlinellu pwysigrwydd datblygu perthnasau positif sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth. Ymgymerir ag ymgynghoriad ac ymgysylltiad gyda holl ddefnyddwyr gwasanaeth drwy ein prosesau asesu, cynllunio gofal chynllunio prosesau pontio, ynghyd ag ymgysylltiad penodol ar ddatblygu gwasanaeth.

Gyda chyfyngiadau covid yn dal i fodoli drwy gydol rhannau o 2021, rydym wedi parhau i gysylltu â gofalwyr ar y ffôn a galwadau fideo. Gwnaeth cysylltiad parhaus wahaniaeth anferth i ofalwyr a chael effaith bositif ar eu lles. Ni wnaeth y gwasanaeth "gau ei ddrysau" ac mae wedi parhau i addasu ei ddull cyfathrebu yn unol ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

Parhaodd y grŵp dementia lleol i gyfarfod ym Marc Pont-y-pŵl ac roedd hyn o werth mawr i ofalwyr.

Wrth i gyfyngiadau gael eu codi drwy gydol y flwyddyn, ailgychwynnodd cyfarfodydd grwpiau dan do yn araf. I ofalwyr a oedd yn dal yn nerfus ynglŷn a covid ac yn benodol bod mewn lle amgaeedig gydag eraill, cadwyd at gysylltu ar y ffôn a Zoom ac mae dulliau hybrid o gyfarfod a chyfathrebu wedi eu datblygu'n barhaus.

Cynigiwyd ystod o weithgareddau i ofalwyr ifanc ac oedolion ar gyfer Wythnos Gofalwyr 2021. Plannodd gwirfoddolwyr, gan gynnwys gofalwyr, 400 o flodau mewn gardd benodol i bob gofalwr di-dâl yn Llyn Cychod Cwmbrân. Cafwyd stori am yr ardd yn y South Wales Argus ynghyd ag ar wefan y Bartneriaeth Natur Leol. Cymerodd cynghorwyr lleol, gofalwyr di-dâl a staff ran yn y gwaith o blannu'r plygiau blodau gwyllt.











*"Mae'r ardd yn lle braf iawn ac rwy'n gobeithio y bydd pobl yn ei mwynhau a'i gwerthfawrogi."*


*Gofalwr*

Cawsom bresenoldeb arwyddocaol ar y cyfryngau cymdeithasol, pan ddefnyddiwyd yr arena i chwalu chwedlau am ofalwyr.












Roedd y cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn uchel a chafwyd llawer o sylwadau positif gan ofalwyr.

Ymgasglodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) a Thîm Partneriaeth Rhanbarthol Gwent cyn wythnos gofalwyr, cafwyd 38 o addunedau wythnos gofalwyr ac fe rannwyd y rhain arlein ynghyd â gwybodaeth am ofalwyr. Rhannwyd y negeseuon hyn ar Twitter, Facebook a mewnrwyd BIPAB drwy gydol wythnos gofalwyr.

Crëwyd logo oedolion-ofalwyr, ac fe gafodd y rhain eu hargraffau ar faneri newydd a arddangoswyd ledled yr awdurdod, ynghyd a gwybodaeth ar sut allai gofalwyr gysylltu gyda ni i gael cymorth.

Cynhaliwyd digwyddiad yn Nhŷ Glas Y Dorlan yng Nghwmbrân, a roddodd daith i ofalwyr o gwmpas yr adeilad newydd, ac roedd 15 o sefydliadau wrth law i ddarparu gwybodaeth.






Cyflwynwyd tudalen benodol newydd i ofalwyr ar Facebook a gafodd ei hysbysebu ar y diwrnod.

Trefnwyd cinio pysgod a sglodion yng Nghanolfan Dysgu'n Egnïol Pont-y-pŵl ar gyfer y grŵp dementia a chefnogwyd grŵp bowlio Gofalwyr Cwmbrân, i ofalwyr a'r rhain maent yn gofalu amdanynt gael digwyddiad.

Gyda chyfyngiadau'n cael eu llacio erbyn diwedd y flwyddyn, trefnwyd taith i'r pantomeim gyda 240 o ofalwyr yn mynychu, a oedd yn gymysgedd o ofalwyr ifanc ac oedolion.

Gan fod cyfyngiadau yn bodoli am ran o'r flwyddyn, nid oedd modd cynnal digwyddiadau fel mewn blynyddoedd blaenorol. Defnyddiwyd y cyllid i redeg cynllun grantiau arall lle gallai gofalwyr wneud cais am eitemau hanfodol ac eitemau i gynorthwyo gyda seibiant unigol. Roedd y cynllun grant unwaith eto yn llwyddiant mawr ac rydym wedi cael adborth gan ofalwyr yn dweud pa wahaniaeth y gwnaeth y grant iddyn nhw.

Gwnaed newidiadau i ffrydiau ariannu Tai yn 2021/22. Oherwydd yr amser a fuddsoddwyd, rydym wedi gallu adolygu cyfarwyddyd practis, ac wedi gweithredu'n llawn y canllawiau newydd mewn perthynas â'r Grant Cymorth Tai (HSG). Cymeradwywyd Strategaeth a chynllun cyflenwi'r Rhaglen Cymorth Tai gan y cabinet ym mis Mawrth 2022. Mae cynllun cyflenwi 2021/22 yn parhau i fynd rhagddo gyda phrosiectau yn cael eu gweithredu a'u monitro/ Mae contractau wedi eu hail-dendro a pharhaodd gweithrediad y trefniadau contract newydd.

Mae gwaith wedi parhau gyda Blwyddyn 3 Strategaeth Ddigartrefedd Gwent. Fodd bynnag, mae'r gwaith wedi ei effeithio gan y pandemig. Mae gofynion pellach gan Lywodraeth Cymru wedi ychwanegu at y gofynion i awdurdodau lleol ddrafftio cynlluniau pellach yn ymgorffori effeithiau COVID 19 ar ddigartrefedd. Yr effaith net yw y bydd dau gynllun ar wahân yn cael eu llunio a bydd cynllun COVID 19 yn bwydo i mewn i'r prif gynllun.

Mae diwallu anghenion ein cwsmeriaid yn y gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn bennaf yn canolbwyntio ar gyflawni'r dyletswyddau statudol y mae deddfwriaeth yn eu rhoi arnom drwy'r Ddeddf Plant 1989 a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd mae pwyslais ar deuluoedd yn gallu defnyddio eu cryfderau i helpu eu hunain neu dderbyn y cymorth priodol i wneud hynny. Mae ymarferwyr wedi gweld newid mewn prosesau gwaith ac arferion ac wedi croesawu ymgysylltiad gyda theuluoedd wrth gyflawni canlyniadau sy'n diwallu anghenion eu plant. Yn yr un modd, mae teuluoedd wedi profi a chroesawu newid o'r fath. Ymgymerir ag ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn gyffredinol drwy asesiad unigol, cynllunio gofal a dyletswyddau cynllunio llwybr. Mae hyn yn gwahodd barn plant, pobl ifanc a theuluoedd, i'w hystyried ynghyd â barn gweithwyr proffesiynol. Cesglir hyn ynghyd drwy'r data sy'n bwydo gwybodaeth i'n dangosyddion perfformiad; gallwn gydnabod y galw a defnyddio hyn i gynllunio busnes.

Mae plant sydd â phrofiad o ofal yn aelodau o'n Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Mae hyn yn galluogi i ddefnyddwyr gwasanaeth herio a chraffu, gyda'r nod cyffredinol o gael effaith ar a llunio cyflenwad gwasanaeth.

Mewn perthynas â Gofalwyr ifanc (5 i 16 oed) a Gofalwyr sy'n oedolion ifanc (16 i 25 oed), mae llawer o weithgaredd wedi bod yn digwydd drwy gydol 2020/21.

- Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen – Dosbarthiadau Campfa a Ffitrwydd
- Prosiect Go Kart
- Fforwm Gofalwyr Ifanc
- Cynllun Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc
- Gweithgareddau Hanner Tymor
    - Ysgol goginio
    - Dyddiau Alpaca
    - Fforwm Teulu Gofalwyr Ifanc
    - Dyddiau Gweithgareddau
    - Bowlio
    - Disgo Dan 10 oed

Mae Grwpiau Gofalwyr Ifanc wedi eu sefydlu gyda chyfleoedd i grwpiau gyfarfod mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen a'r Gwasanaeth Chwarae mewn perthynas a grwpiau iau. Mae gofalwyr ifanc yn cael gwybodaeth a chymorth, ynghyd ag amrywiaeth eang o weithgareddau megis chwaraeon, pŵl, coginio, celfyddyd a chrefftau. Mae'r holl weithgareddau a hwylusir gan staff hyfforddedig a phrofiadol a gweithwyr ieuenctid yn helpu gofalwyr ifanc i ddatblygu grwp0iau cyfeillgarwch, rhwydweithiau cymorth.

Mae ein Gwasanaeth Ffocws ar Deuluoedd a'n Gwasanaeth Ymateb Cyflym yn derbyn adborth am y gwasanaeth gyda phob teulu; gyda'r rhieni a'r plant (gan ddibynnu ar eu hoedran a'u gallu i ddeall).

"Ni allaf ddychmygu bod gweithwyr cymdeithasol yn cael llawer o glod am y gwaith maent yn ei wneud ond hoffwn ddiolch i chi a'r tîm i gyd am bopeth rydych wedi ei wneud dros xxxx a minnau. Rwy'n gwybod bod gennych waith i'w wneud ond wir, fyddai byth yn anghofio cymaint rydych wedi ei wneud i'm helpu i a'r teulu drwy gyfnodau anodd iawn"

*Aelod o'r teulu*

Fe wnaethom ni gydnabod nad yw rhai pobl yn gallu rhoi eu barn ar wasanaethau neu sut i wella gwasanaethau. Ar lefel rhanbarth, rydym yn comisiynu gwasanaethau eiriolaeth arbenigol i oedolion a phlant er mwyn sicrhau fod pobl sy'n ei chael yn anodd yn dal i allu rhoi eu barn.

Mae ein Huned Gomisiynu yn parhau i weithio ar draws y rhanbarth ac roedden nhw'n aelodau allweddol o'r ymateb i COVID a chynllunio ar gyfer adfer. Maent wedi darparu dolen gyfathrebu amhrisiadwy o ran rhannu cyfarwyddyd wrth iddo newid ac effeithio gwasanaethau mewnol neu a gomisiynwyd Fe wnaethant gefnogi darparwyr yn ystod

digwyddiadau a gweithredu fel adnodd gwerthfawr trwy ddod o hyd i staff, offer a gwasanaethau pan oedd Cartrefi Gofal mewn argyfwng.

Yn ogystal â'u dyletswyddau cyfredol, maent wedi darparu cefnogaeth i'r Rheolwr Grŵp sy'n gyfrifol am weithredu a gweinyddu'r taliadau Cydnabod Gofal Cymdeithasol gwerth £735, gweinyddu taliadau'r gronfa caledi, dosbarthu'r dyfeisiau Prawf Llif Ochrol a dosbarthu CDP. Maent wedi parhau i fod yn bartneriaid allweddol yng Nghyfarfodydd y Digwyddiad Cartrefi Gofal wythnosol gan weithio'n agos gyda chydweithwyr ICC ac Iechyd yr Amgylchedd.

Yn 2022/23 a thu hwnt, byddwn yn parhau i gefnogi'r ymateb cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i bandemig COVID 19 gyda llawer o'r gofynion i liniaru effaith y pandemig ar ein dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Byddwn yn adeiladu ar y perthnasoedd yr ydym wedi'u hatgyfnerthu gyda'n holl bartneriaid ar draws cyfarwyddiaethau’r Cyngor a gyda'n defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n ddiogel ac yn gadarnhaol i holl ddinasyddion Torfaen.

Bydd ein Huned Gomisiynu yn parhau i fod yn aelod hanfodol o Bartneriaeth Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent - Grŵp Gorchwyl a Gorffen Comisiynu a bydd yn defnyddio’r Asesiad Anghenion y Boblogaeth sy’n ganolog i hybu lles, cefnogi pobl ar y cyfle cyntaf i gadw eu hannibyniaeth a helpu pobl i helpu nhw eu hunain yn well.

Mae ein gwaith yn parhau i gael ei gyfeirio trwy ein partneriaethau strategol e.e. Plant a Phobl ifanc, Partneriaeth Diogelu Oedolion Gwent, Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a’r Bwrdd Strategol ar gyfer Gofalwyr.

## 4. HYBU A GWELLA LLES Y RHEINY YR YDYM YN EU HELPU

### A. Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu deilliannau lles personol y mae pobl am eu cyflawni

Ers i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ddod i rym rydym wedi bod yn hybu lles pobl trwy ofyn iddyn nhw “Beth sy’n bwysig i chi. Rydym wedi bod yn annog defnyddwyr y gwasanaeth - oedolion, plant a gofalwyr - i lunio a rheoli’r gwasanaethau y maen nhw am dderbyn. Mae Gwasanaethau Oedolion wedi darparu hyfforddiant “Sgyrsiau Cydweithredol” i’r holl aelodau staff. Rydym am i ddefnyddwyr y gwasanaeth deimlo bod ganddynt y grym i lwyddo yn eu deilliannau lles eu hunain a’u hannibyniaeth.

Rydym wedi adeiladu ar ein perthnasoedd cadarnhaol â'r bwrdd iechyd trwy weithio'n well gyda nyrsys ardal, y Tîm Adnoddau Cymunedol a'r ysbytai gan arwain at well cyfathrebu a gwell canlyniadau i bobl. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymestyn prosiect Gartref yn Gyntaf gydag awdurdodau lleol cyfagos i roi asesiad cyflym i gleifion wrth adrannau drws ffrynt brys 7 diwrnod yr wythnos.

Yn 2021/22, rydym wedi parhau i ddatblygu cynlluniau gofal a chontractau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn hytrach na chanolbwyntio ymdrechion ar fonitro tasgau a phrosesau. Nid yw hyn bob amser yn hawdd, ac nid oes gennym y gallu i ddiwallu holl ddisgwyliadau'r cyhoedd na holl ddewisiadau defnyddwyr a gofalwyr. Rydym wedi, ac yn parhau i fod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael, gan fod gennym ystod eang o ddyletswyddau a galwadau sy'n cystadlu a'i gilydd. Ein hathroniaeth o hyd yw 'Cartref yn Gyntaf', ac mae adnoddau yn cael eu sianelu tuag at wasanaethau sy'n galluogi i bobl fyw yn eu cartrefi / cymunedau eu hunain yn ddiogel ac yn annibynnol cyn hired ag y bo modd.

Mae Cysylltwyr Cymunedol Torfaen yn parhau i weithio gyda phobl sy'n unig, ar wahân yn gymdeithasol, ac yn brin o hyder neu sydd efallai wedi colli cyswllt gyda'u rhwydweithiau a/neu'r gymuned.



Mae'r Cysylltwyr Cymunedol wedi cefnogi wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl gyda dau sesiwn hel sbwriel gyda phellter cymdeithasol yng ngogledd a de'r fwrdeistref. Roedd hyn yn caniatáu iddyn nhw ryngweithio gyda'r gymuned yn anffurfiol a rhannu a hyrwyddo'r rôl a'r tîm.

Maent wedi cefnogi'r adnoddau gofal cymdeithasol pwrpasol newydd yn Nhŷ Glas Y Dorlan, gan fynychu diwrnod agored a chynllunio gweithgareddau a digwyddiadau i drigolion a'r gymuned

Defnyddiodd y Cysylltwyr arian Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol i gefnogi cymunedau. Mae'r tîm wedi bod yn hynod lwyddiannus ac yn medru rhoi cyllid i gychwyn pedwar prosiect a fydd yn para 12 mis ac a allai gyrraedd 2,000 o bobl.

- Cyfres o deithiau 'cyfeillio' i fannau o ddiddordeb i bobl gyfarfod a thrafod y diwrnod a'u profiad e.e. y pwll Mawr, Amgueddfa Caerdydd ac ati
- Ymwybyddiaeth ofalgar a lles meddyliol, gan gynnwys Yoga, Celfyddyd Greadigol a phecynnau gweithgaredd ar gyfer lles meddyliol.
- Dau grŵp sinema: un yn y gogledd ac un yn y de, gan alluogi i bobl unig a rhai ag unigedd cymdeithasol i fynychu'r sinema gydag eraill ac yna cyfarfod i drafod y ffilm.

- Cael sgyrsiau yn y gymuned, cyfres o 12 sgwrs gan amrywiaeth o bobl a sefydliadau. Mae’r prosiectau hyn yn gweithio’n dda, gyda’r grwpiau y mae’r Cysylltwyr Cymunedol yn eu hwyluso yn barod.

Yn 2020/21, rydym wedi gwneud camau anferth o ran datblygu ymateb strategol a model cymunedol ar gyfer gwelyau gofal tymor hir / tymor byr. Rydym wedi agor yr Hwb Cymunedol arloesol yn Nhŷ Glas y Dorlan, gan ddefnyddio mwy na £3m o’r Grant Tai Cymdeithasol a’r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi ein strategaeth gymunedol. Mae Tŷ Glas y Dorlan yn gyfleustra cymunedol arhosiad byr lle mae gan westeion eu fflat eu hunain tra byddant yn aros yno. Wrth ganolbwyntio ar anghenion y defnyddiwr gwasanaeth, nod y ddarpariaeth yw hybu cryfderau a chreu lefelau uwch o annibyniaeth wrth gynnig pecyn ansawdd uchel o gymorth a arweinir gan anghenion.














Fel yr adroddwyd mewn blynyddoedd cynt mae'r nifer sy'n manteisio ar Daliadau Uniongyrchol yn parhau i fod yn gyfyngedig. Mae adborth gan gleientiaid wedi pwysleisio'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â hunan-reoli Taliadau Uniongyrchol ac mae wedi bod yn rhwystr i nifer o bobl gan effeithio ar y niferoedd. Mae tîm prosiect talu uniongyrchol wedi'i ddatblygu i edrych ar ddatblygu a dylunio'r gwasanaeth i oresgyn y rhwystrau i bawb sydd angen derbyn taliadau uniongyrchol.


Rydym yn cydnabod bod mynediad at wybodaeth a chyngor priodol yn allweddol i gefnogi pobl i fod mor annibynnol ag y bo modd.

Rydym wedi cryfhau gwaith partneriaeth drwy ehangu'r MASSH (Hwb Cymorth ac Amddiffyn Aml-asiantaeth), gan ein galluogi i gryfhau ein gallu i sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn y cymorth iawn ar yr adeg briodol i rwystro symud i fyny drwy'r system.

Rydym wedi datblygu'r model seiliedig ar gryfderau yn y gwasanaeth plant a theuluoedd sydd wedi cynnwys adolygiad o waith papur a phrosesau penderfynu ac rydym wedi cyflwyno rhaglen hyfforddiant arwyddocaol seiliedig ar gryfderau i holl staff o fewn y gwasanaeth. Bydd hyn yn parhau fel rhaglen dreigl ar gyfer holl aelodau staff sy'n ymuno â'r is-adran ac mae hyfforddiant gloywi a rhaglen fentora lawn ar waith. Ar 31ain Rhagfyr 2021, mae 161 allan o 182 aelod staff wedi cwblhau'r rhaglen hyfforddi lawn.

Mae'r gwasanaeth wedi adolygu achosion lle mae plentyn yn destun Gorchymyn Gofal ac wedi'i leoli gyda rhieni, gyda chynllun clir (lle bo'n addas) yn cael ei ddyfeisio i ryddhau gorchmynion o'r fath. Ochr yn ochr â hyn mae'r gwasanaeth wedi treialu proses rhyddhau Gorchymyn carlam gyda'r farnwriaeth a CAFCASS ac wedi bod yn allweddol wrth gyflawni nifer o Orchmynion Gofal o'r fath. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i sicrhau nad yw Plant yn aros yn y system derbyn gofal yn ddiangen.

Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i leihau ei boblogaeth sy'n derbyn gofal drwy gydol 2021/22 o 446 ar ddechrau'r flwyddyn i 407 ar 31ain Mawrth 2022




Mae'r gwasanaeth Ffocws ar Deuluoedd wedi parhau i ddarparu ymyraethau ar sail cryfder therapiwtig dwys i gefnogi teuluoedd, gan roi cefnogaeth a chynhaliaeth cyn ac yn ystod y broses Gynllunio Gofal yn y Llys er mwyn sicrhau fod modd cynnal teuluoedd a bod plant yn cael eu cefnogi mewn ffordd briodol yn y lle cywir. Rydym wedi gwella ein Gwasanaeth Ffocws ar Deuluoedd a chynyddu'r gallu i'w ddefnyddio ym mhroses Cynllunio Gofal y Llys. Rydym wedi parhau i dderbyn adborth cadarnhaol am y gwasanaeth hwn gan rieni a phobl ifanc.

Yn 2022/23 a thu hwnt, mae'r Cysylltwyr Cymunedol wedi trosglwyddo o Ofal Cymdeithasol i'r gyfarwyddiaeth Cymunedau. Bydd hyn yn galluogi lefel o weithgaredd mwy rhwystrol ac yn canolbwyntio ar y gymuned o fewn y swyddogaethau, a bydd yn parhau i weithio gyda, ac ar y cyd â gofal cymdeithasol oedolion.

Byddwn yn parhau i gymryd rhan yn gweithgor Adnoddau yn y Gymuned. Byddwn yn parhau i wella ein gwybodaeth ar wefan Torfaen, fel ei fod yn mynd yn rhywle lle mae pobl yn mynd pan fyddant angen gwybodaeth, arweiniad a chyngor am y gwasanaethau sydd ar gael iddyn nhw er mwyn gallu cymryd penderfyniadau gwybodus.

Byddwn yn symud ymlaen ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Taliadau Uniongyrchol ac yn gweithio, yn rhanbarthol, tuag at ddymchwel y rhwystrau a adnabuwyd o ran y nifer sy'n cael Taliadau Uniongyrchol yn Nhorfaen.

Bydd Gwasanaethau Oedolion hefyd yn gweithio gyda chomisiynwyr a darparwyr i barhau i ddeall anghenion newidiol y gymuned a dylunio opsiynau cymorth yn y cartref a'r gymuned sy'n gynaliadwy ac yn diwallu anghenion ein dinasyddion.

Byddwn yn parhau i gydweithio gyda phobl a gofalwyr i ddatblygu ac adolygu cynlluniau gofal a chefnogaeth. Byddwn yn greadigol ac yn chwilio am gyfleoedd newydd.

Byddwn yn parhau i roi gwybodaeth i bobl a'u galluogi i wneud dewisiadau cadarnhaol i gael hyd i'w hatebion ei hunain yn eu cymunedau er mwyn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth ac yn cydnabod gwerth rhwydweithiau cymorth ffurfiol ac anffurfiol, fel y gall pobl a phartneriaid gyrraedd nodau cyffredin a deilliannau gwell.

Byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn y gyfarwyddiaeth Cymunedau i sicrhau bod y lefel briodol o gymorth yn cael ei darparu ar yr adeg briodol.

## B. <u>Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hybu iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl.</u>

Roedd y pandemig yn gyfle perffaith i adeiladu ar ein partneriaethau cryf gyda'n holl bartneriaid; yn fewnol ac yn allanol.

Yn 2021/22 parhaodd Gofal Cymdeithasol i weithredu yn unol â chyngor, protocolau, arweiniad a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Covid-19 cenedlaethol, rhanbarthol, lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gweithiodd partneriaid ledled y rhanbarth yn ddiflino i gadw i fyny gyda'r holl ganllawiau a'r protocolau a oedd yn cael eu rhannu y flwyddyn honno.

Roedd y profiad o fewn Gofal Cymdeithasol a Thai yn destament i sut bu i ni ymateb i'r pandemig a newid na ellid ei ddarogan.

Cymerodd uwch reolwr o fewn Gwasanaethau Oedolion yr arweiniad wrth gydgysylltu ymateb Torfaen i'r canllawiau newidiol, ac arwain ar weinyddu adnoddau a oedd ar gael i ddarparwyr Gofal Cymdeithasol yn y gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd. Rhannwyd yr holl wybodaeth yn amserol, ac arweiniodd y Tîm Comisiynu ar gynorthwyo a chydgysylltu ein gwasanaethau a gomisiynwyd.

Yn y gwasanaethau oedolion, gwnaethom arwain ar ddosbarthu CDP ar gyfer rhanbarth Gwent gan ddefnyddio Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig Gwent (GWICES). Defnyddiwyd depo *Cefndy-Medequip* fel man cyflenwi ar gyfer cyflenwadau Llywodraeth Cymru, gwnaethom ddefnyddio'r trefniadau logistaidd a'r fflyd oedd ar gael i ailddosbarthu i'r pum hwb awdurdod lleol ledled y rhanbarth. Yna dosbarthwyd CDP i'r holl ddarparwyr gofal cymdeithasol a gomisiynir gennym.

Gweithiodd yr awdurdodau lleol ar y cyd fel rhanbarth i gaffael CDP i rhannu'r cyflenwadau cyfyngedig oedd ar gael gyda'r sector annibynnol.

Mae gwaith partneriaeth rhanbarthol ar ‘Fodel Person Cyfan, Argyfwng System Gyfan a Gofal Difrifol’ Iechyd Meddwl Gwent wedi parhau trwy 2021/22 gyda darnau o’r model yn cael eu datblygu. Sefydlwyd cymuned o arfer i ddod a phartneriaid a rhanddeiliaid ynghyd i sicrhau bod yr hyn sy’n bwysig i bobl Gwent yn cael ei adlewyrchu yn nyluniad y model newydd a bod llais defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr yn ganolog.

Mae Grŵp Cyflenwi Cyfamod Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl Gwent, a arweinir gan uwch reolwr o Dorfaen wedi parhau i oruchwylio’r cynllun gweithredu rhanbarthol, a gweithio ar atebion creadigol i’r heriau yn ein systemau. Mae’r cynllun peilot trawsgludo wedi cynnig ateb amgen i ambiwlans argyfwng i sicrhau fod pobl sydd mewn argyfwng iechyd meddwl yn cael trafnidiaeth briodol i’w cludo i le diogel ar gyfer eu hiechyd, a hynny'n brydlon a chydag urddas. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i nodi cyllid parhaus cynaliadwy i symud o gynllun peilot i gynnig gwasanaeth sefydledig. Mae Torfaen wedi cyfrannu at Adolygiad Mynediad Iechyd Meddwl ac Adolygiad Cludiant Llywodraeth Cymru ac yn aros am y canfyddiadau a'r argymhellion.

Mae gweithredu’r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (TARh) wedi bod allan i ymgynghoriad cyhoeddus ynghyd â’r Cod Ymarfer a’r rheoliadau sy’n mynd gyda’r Ddeddf Galluedd Meddwl a gafodd ei oedi gan lywodraeth y DU tan fis Ebrill 2022. Roedd yr oedi y rhannol oherwydd bod angen i’r system iechyd a gofal cymdeithasol ganolbwyntio ar yr ymateb i Covid 19 a’r cynllunio ar gyfer adferiad wedi hynny. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ar 7fed Gorffennaf 2022, ond nid yw llywodraeth y DU na llywodraeth Cymru eto wedi pennu dyddiad gweithredu pan fydd yr MCA diwygiedig yn dod i rym. I baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd hon, sy’n disodli’r Trefniadau Amddifadu o Ryddid (DoLS), rydym wedi creu rôl ymarferwr arweiniol i gynorthwyo gyda’n gweithrediad rhanbarthol a lleol. Mae gennym ffocws o’r newydd ar gynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o’r Ddeddf Galluedd Meddyliol, sy’n hanfodol o ran gweithredu LPS. Mae consortiwm Gwent eang, yn cynnwys y pum awdurdod lleol a BIPAB, yn datblygu dull ar y cyd o ran gweithredu a llunio trefniadau hyfforddi a datblygu i sicrhau bod cysondeb ar draws y rhanbarth i gyflawni gofynion cyfreithiol a’r nifer o alwadau a gaiff eu cynhyrchu gan y newidiadau i’r MCA.

Drwy gydol y pandemig rydym wedi parhau i gefnogi’r agenda Cymuned sy’n Deall dementia, gan ddarparu sesiynau dysgu rhithwir. Cwblhawyd sesiynau gyda myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Coleg Gwent, gan greu mwy na 100 o grwpiau Cyfeillio Dementia ac rydym hefyd wedi bod yn cefnogi myfyrwyr Therapi Galwedigaethol, ysgolion, staff y cyngor a mudiadau cymorth cymunedol megis Atgofion Chwaraeon Torfaen a grŵp cymorth Parkinson’s Cwmbrân.

Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth drwy’r Gronfa Integreiddio Ranbarthol i ddatblygu atebion technoleg gyda'r nod o helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy annibynnol megis Gweithgareddau Therapi Rhyngweithiol Atgofion (RITA), anifeiliaid anwes rhyngweithiol a dyfais o’r enw HUG sydd â’r nod o wella lles meddyliol pobl gyda dementia datblygedig. Rydym hefyd wedi dosbarthu anifeiliaid anwes rhyngweithiol i gartrefi gofal, sydd wedi cael eu croesawu.

Mae'r unedau RITA wedi eu dosbarthu drwy wardiau ysbyty a chartrefi gofal. Rydym wedi cael adborth positif ac mae'r HUGS yn cael eu peilotio nawr.

**<u>Prosiect Mentro gyda'n Gilydd</u>**


Mentro gyda'n gilydd

Get there together

A resource to support the people of Wales access their communities.

Datblygwyd y prosiect 'Mentro Gyda'n Gilydd' cenedlaethol i gefnogi pobl drwy newidiadau mewn lleoliadau cymunedol yn ystod y pandemig, gyda chlipiau fideo byr a gynhaliwyd drwy wefan Dewis Cymru. Mae'r prosiect nawr yn ystyried cefnogi agenda adfer Covid 19, ac mae clipiau fideo wedi eu datblygu i groesawu pobl yn ôl i leoliadau a gwella cynhwysiant cymdeithasol. Fel rhan o'r grŵp cenedlaethol, rydym hefyd yn gweithio gyda chwmni technegol sy'n peilotio ap fel rhan o'r prosiect hwn, er mwyn i bobl allu gwneud eu cynnwys a'u clipiau eu hunain, sy'n fwy addas i'w hanghenion nhw. Gall gofalwyr ac aelodau teulu wneud fideos i gynorthwyo eu hanwyliaid, gyda nodiadau atgoffa a gwybodaeth ddefnyddiol pan fyddant allan yn siopa neu yn gweld eu meddyg teulu, er enghraifft. Gellir cadw'r clipiau ar galendr ar yr ap, gan ganiatáu i bobl gynllluniau eu diwrnod gyda chlipiau fideo a nodiadau atgoffa defnyddiol.

Mae Data Cymru yn olrhain y nifer sy'n edrych ar y tudalennau ar gyfer y prosiect, ac mae mwy na miliwn wedi edrych arnynt yn y 12 mis diwethaf ar draws y prosiect cyfan.



Data Cymru

Fel rhan o Wythnos Gweithredu ar Ddementia 2022 rydym wedi datblygu rhaglen o ddeunyddiau cyfryngau cymdeithasol i bwysleisio pwysigrwydd diagnosis. Rydym ar hyn o bryd yn paratoi gwaith yn rhanbarthol ar gyfer gweithredu Safonau Dementia Cenedlaethol ac yn gweithio'n agos gydag arweinwyr ffrydiau gwaith aml-asiantaeth i hyrwyddo'r gwaith yma.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gwent, BIPAB a Chymdeithas Alzheimer Cymru, gan gefnogi cydgysylltiad prosiect band arddwrn Dementia, a gafodd ei beilotio ym mis Mehefin 2022. Mae'r cynllun band arddwrn dementia yn golygu y gall gweithwyr gwasanaethau argyfwng adnabod yn hawdd a chael yr help a'r cymorth priodol ar gyfer pobl yn byw gyda'r cyflwr. Bydd y peilot yn cynnig i 80 o drigolion lleol dreialu'r band a rhoi adborth gwerthfawr a allai gefnogi lansiad cenedlaethol. Bydd y bandiau yn cael eu dosbarthu gan y gwasanaethau asesu cof ledled Gwent, a byddwn yn cefnogi'r gwerthusiad ac yn adrodd yn ôl i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Heddlu Gwent fydd yr heddlu cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu'r cynllun hwn.
Mae'r cynllun hwn yn cefnogi Protocol Herbert, y bydd Heddlu Gwent, ynghyd â heddluoedd eraill Cymru yn ei gefnogi, ac a fydd yn darparu gwybodaeth werthfawr ar unrhyw un sy'n byw gyda dementia a chyflyrau niwrolegol eraill.

*Os bydd person yn mynd ar goll neu'n ddryslyd yn y gymuned, gall fod yn brofiad trallodus iawn i'r person sy'n byw gyda dementia, eu teulu a'u gofalwyr. Mae Bwrdd Partneriaeth Gwent yn falch o gefnogi Heddlu Gwent a phartneriaid fel yr ardal gyntaf yng Nghymru i deialu'r dechnoleg hon. Bydd y bandiau arddwrn yn cynnwys gwybodaeth hanfodol, gan gynnwys enw'r sawl sy'n ei wisgo a manylion eu perthynas agosaf, a gall aelodau'r gymuned eu gweld drwy ap ar eu ffôn os byddant yn canfod rhywun sydd angen help a chymorth. Nid yw'r dechnoleg hon yn bodoli yn lle gofal da ond bydd yn gweithredu fel haen ychwanegol o amddiffyniad ynghyd â Phrotocol Herbert, i gadw pobl yn ddiogel, wrth i bobl barhau i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt i fyw yn dda".*

*Y Cynghorydd Paul Cockeram, Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent*:

Mae Hwb Gofalwyr Gwent ar gael i holl ofalwyr yn rhanbarth Gwent. Yn ystod 2021/22 roedd:
- 8441 cysylltiad gyda gofalwyr;
- 774 atgyfeiriad newydd i'r hwb;
- 1186 nifer o ofalwyr yn defnyddio'r gwasanaeth;
- 2181 o ofalwyr wedi eu cyfeirio i wasanaethau;
- 140 atgyfeiriad ymlaen;
- 141 o gymorthfeydd wedi eu cynnal;
- cyfanswm o 377 sgyrsiau 'yr Hyn Sy'n Bwysig';
- 29 cwrs hyfforddi wedi eu cynnig;
- 111 gofalwyr ifanc / oedolion ifanc sy'n ofalwyr wedi eu hadnabod;
- 96 digwyddiad allgymorth wedi eu cynnal

Mae gweithgareddau yn yr hwb yn cynnwys yoga cadair, crefftau, grwpiau cerdded llesiant, hyfforddiant cymorth cyntaf i ofalwyr, clinigau cyfreithiol, boreau coffi, therapi gyflenwol, gweithgareddau Calan Gaeaf a gwasanaethau galw heibio.

Mae Cyngor Torfaen wedi cefnogi'r hyfforddiant hwn drwy ei adran datblygu gweithlu, gan gynnal 11 sesiwn hyfforddi eleni, 6 sesiwn gaeedig i dimau unigol a 3 gweithdy agored.

Mae ein hymrwymiad i gefnogi gofalwyr ifanc/oedolion ifanc sy'n ofalwyr mewn addysg yn aros yn uchel. Wrth adnabod gofalwyr cudd, rydym wedi gweld newid yn yr hinsawdd i ofalwyr ifanc sy'n cydbwyso eu rôl fel gofalwyr ynghyd ag ymdopi gydag ysgolion yn cau, a rheoli dysgu arlein ac yna ailagor ysgolion yn cael ei waethygu ymhellach gyda chyfnodau o gwarantîn.

Mae'r rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol a gyflenwir gan Ymddiriedolaeth gofalwyr De-ddwyrain Cymru (CTSEW), nawr y Care Collective wedi gweld cynnydd mewn galw. Mae'r tabl isod yn dangos ysgolion sy'n cymryd rhan yn y prosiect hwn.

| | Nifer o Ysgolion Cynradd | Ysgolion Cynradd sy'n cymryd rhan | Nifer yr Ysgolion Uwchradd | Ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan | UAD sy'n cymryd rhan 1/5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 23 | 3 | 4 | 3 | |
| **Caerffili** | 78 | 8 | 12 | 7 | |
| **Sir Fynwy** | 30 | 1 | 4 | 4 | 1 |
| **Casnewydd** | 46 | 3 | 9 | 8 | |
| **Torfaen** | 26 | 6 | 6 | 5 | |
| **Cyfanswm** | **203** | **21 (10%)** | **35** | **27 (77%)** | **1 (20%)** |

Mae CBST wedi chwarae rhan actif yn y gwaith comisiynu rhanbarthol a gyd-gysylltwyd gan Dîm Partneriaeth Ranbarthol Gwent. Mae hyn wedi cynnwys y gweminarau rhanbarthol wythnosol gyda darparwyr gofal cartref a chartrefi gofal drwy gydol y pandemig a thu hwnt. Rydym hefyd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Ranbarthol sy'n ofynnol dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Er bod yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd yn yr ardal wedi dod i gytundebau ffi ar wahân ar gyfer 2022-23, mae Torfaen wedi bod ac yn parhau i fod yn aelod gweithredol o waith trafodaethau ffioedd rhanbarthol gyda darparwyr cartrefi gofal annibynnol yn yr ardal. Mae'r Awdurdod hefyd wedi chwarae rhan bwysig p ran datblygu dull rhanbarthol tuag at daliadau uniongyrchol ac arolwg o'r gwasanaethau dydd. Mae'r broses gomisiynu ranbarthol yn y broses o gael ei hadolygu a'i diwygio wrth i gyfyngiadau'r pandemig gael eu llacio.
Mae'r Cyngor yn cydnabod y rôl amhrisiadwy a ymgymerwyd gan blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n darparu gofal anffurfiol i eraill. Yn y Cyfrifiad diwethaf, nododd mwy na 12,000 o bobl yn Nhorfaen eu bod yn darparu rhyw fath o ofal anffurfiol dyddiol i aelodau eu teuluoedd eu hunain neu bobl eraill. Yn aml, dim ond pan fydd pethau'n mynd yn ormod iddyn nhw y mae gofalwyr yn cysylltu gyda'r gwasanaethau statudol. Maent yn aml yn adrodd eu bod yn teimlo  na allent fwynhau eu bywydau eu hunain

oherwydd ymrwymiadau gofalu, ac mae Torfaen yn gwbl ymroddedig i helpu i gynorthwyo'r adran hon yn ein cymuned.

Rydym wedi parhau i weithio gyda chymdeithasau tai lleol, Bron Afon a Chartrefi Melin i adnabod gofalwyr newydd/cudd a phwysleisio'r problemau sydd gan ofalwyr yn rhanbarthol. Rydym yn rhan o Weithgor Bwrdd Rhaglen Gwent sy'n cynnwys y 4 ALl arall yng Ngwent ac Arweinwyr Gofalwyr y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gweithio'n ddyfal i wella iechyd a lles gofalwyr yng Nghymru.

Yn 2022/23 a thu hwnt, byddwn yn gweld y dull cefnogaeth cymunedol ar sail ardal yn parhau gyda chymorth Cydlynydd Llesiant Integredig. Ochr yn ochr â'r cydlynydd llesiant byddwn yn ehangu'n ffordd o feddwl ac yn cytuno ar ffordd ymlaen i gofleidio 'Cymunedau Tosturiol'. Bydd y ddau edefyn gwaith yn cydgysylltu jig-so'r adnoddau cymunedol er mwyn sicrhau llai o ddyblygu a gwneud inni ddechrau meddwl sut mae llenwi'r bylchau.

Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn allweddol wrth lywio'r strategaeth tymor hir sy'n ystyried angen lleol a chyflenwad.

Mae nifer o weithgareddau newid mawr o fewn y Gwasanaethau Oedolion wedi eu cynllunio ar gyfer 2021/22, a fydd yn cyffwrdd ar – cyd-gynhyrchu, amddiffyn a hybu lles, diogelu, dysgu, hybu perthnasau cadarnhaol a lles economaidd.

Y prif feysydd ar gyfer ystyriaeth yw

- Y Strategaeth Gofal Cartref
- Adolygu ein darpariaeth gwelyau tymor byr a thymor hir
- Ailddiffinio ac ailgynllunio cyfleoedd dydd gyda phartneriaid allweddol
- Pennu goblygiadau newidiadau deddfwriaethol - Trefniadau Amddiffyn Rhyddid sydd i gael eu gweithredu ym mis Ebrill 2022 i ddisodli Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DOLS).
- Adolygu'r mecanweithiau 'drws ffrynt' a llwybrau ac gyfer gofal cymdeithasol oedolion

Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi datblygiad Cymunedau sy'n Ystyriol o Ddementia a datblygu prosesau comisiynu ar y cyd ymhellach ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref gan gysylltu ag adroddiad 'Uwchlaw a Thu Hwnt' AGC a chynllun 'Gofal a Chymorth yn y Cartref' sy'n cael ei ddatblygu gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Nod y gwaith yma yw rhoi cefnogaeth ymarferol i alluogi pobl i fyw bywydau llawnach yn eu cymunedau eu hunain.

Yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y prif feysydd i'w hystyried yw:

- Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y dull aml-asiantaeth effeithiol o flaenoriaethu atgyfeiriadau yn ddiogel.
- Byddwn yn gweithredu'n llawn yr adolygiad o swyddogaethau a chyfansoddiad y tîm lleoli teuluoedd.
- Byddwn yn cwblhau cyflwyniad y fframwaith rheoli risg / arferion seiliedig ar gryfderau ac adolygu effeithiolrwydd arferion newydd eu datblygu.

- Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar symud plant allan o’r system ofal yn ddiogel.
- Byddwn yn cynyddu'r capasiti ar gyfer Cynadleddau Grwpiau Teulu.
- Byddwn yn datblygu digon o leoliadau i blant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth.

## C. <u>Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed</u>

Arweinir trefniadau ar gyfer diogelu ar draws y rhanbarth gan Fwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru (SEWSCB), Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (GWASB) a’r Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDSV), sydd ag amrywiaeth o is-grwpiau sy’n sicrhau diogelu mewn ffordd ymarferol. Mae’r is-grwpiau’n hybu gwell cydweithrediad, yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn rhannu arfer dysgu ac mae swyddogion yn Nhorfaen yn weithredol ym mhob un o’r grwpiau hyn.

Mae Rhwydwaith Diogelu Lleol Torfaen yn gwella ansawdd trefniadau diogelu rhwng asiantaethau ac arferion ar lefel leol, yn hybu dolen gysywllt uniongyrchol rhwng y Byrddau a’i is-grwpiau ac arferion ar y rheng flaen ar draws y rhanbarth. Mae’r grŵp yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu aml-asiantaeth a chynnydd mewn atebolrwydd gydag ardaloedd awdurdodau lleol wedi eu cefnogi gan Uned Fusnes y Bwrdd.

Mae diogelu plant ac oedolion yn un o’n blaenoriaethau corfforaethol. Nid yw'n rhywbeth yr ydym yn gwneud ar ein pennau’n hunain ond rydym yn rhannu cyfrifoldeb gyda meysydd gwasanaeth eraill a, gyda’n partneriaid allanol. Mae’r Prif Swyddog yn cadeirio’r grŵp Arweinwyr Diogelu Corfforaethol (CSLG) sy’n goruchwylio cynllun gwaith blynyddol, wedi ei fonitro gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae gennym ni Banel Rhianta Corfforaethol effeithiol, wedi ei arwain gan Aelodau Etholedig.

Mae’r CSLG wedi parhau i ddatblygu a monitro trefniadau amddiffyn drwy'r Cyngor. Caiff y polisi amddiffyn corfforaethol ei ddiweddaru drwy’r amser i sicrhau ei fod yn addas ac yn defnyddio strategaeth gyfathrebu gorfforaethol i gynyddu ymwybyddiaeth ymhellach a lle i fynd am help.

Mae modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth diogelu wedi ei sefydlu nawr a gosodwyd gofynion clir yn nodi y bydd disgwyl i bob cyflogai gwblhau modiwlau e-ddysgu Codi Ymwybyddiaeth Diogelu a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol o fewn y ddeufis cyntaf yn y swydd. Tra bod yna nifer o gyfleoedd hyfforddiant yn y Cyngor a thrwy’r Byrddau y mae angen i nifer o staff eu defnyddio fel rhan o’u swyddi a / neu’n dewis eu defnyddio er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth o faterion diogelu, mae’r CSLG hefyd wedi mynnu bod yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu yn hanfodol i bob aelod o’r staff, i’w gwblhau pob 2 -3 blynedd.

Mae Cam-fanteisio’n Rhywiol ar Blant (CRhB), y tynnwyd sylw ato yn genedlaethol trwy’r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rotherham (1997 - 2013), wedi parhau i gael blaenoriaeth uchel o fewn y gwasanaeth. Mae hyn wedi ein harwain ni i gyd i edrych ar sut yr ydym yn adnabod ac yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu heffeithio gan CRhB, ac mae cydweithwyr mewn Addysg wedi rhoi mesurau ar waith i sicrhau ymwybyddiaeth a gwybodaeth am CRhB fel blaenoriaeth. Rydym yn gweithio’n agos ag asiantaethau eraill i sicrhau ein bod yn hyrwyddo her

gref i’r bobl hynny a fyddai’n ecsbloetio pobl sy’n agored i niwed. Mae rhaglen o hyfforddiant ymwybyddiaeth wedi ei chyflywno i’r gymuned yn ehangach ac mae niferoedd arwyddocaol nawr wedi eu hyfforddi i adnabod arwyddion CRhB. Mae hon yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Fwrdd Amddiffyn Gwent.

Mae Plant ac Oedolion sydd mewn perygl yn parhau i gael eu cefnogi trwy fesurau diogelu. Adlewyrchir hyn yn nifer yr achosion ble mae anghenion diogelu wedi eu nodi. Ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) mae cynnydd wedi bod yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu oedolion. Mae’r niferoedd ar y gofrestr amddiffyn plant wedi sefydlogi a bydd gweithredu’r dull seiliedig ar gryfderau yn parhau i gefnogi hyn er mwyn sicrhau bod y plant priodol ar y gofrestr amddiffyn plant. Rydym wedi parhau i ostwng y boblogaeth o blant sy’n derbyn gofal, yn gyffredinol, a 2021/22 yw’r tro cyntaf mewn 7 mlynedd i ni weld gostyngiad net. (2019/20 - **438**. 2020/21 - **446**. 2021/22 – **407** ar ddiwedd y flwyddyn)

Rydym yn parhau’n ymrwymedig i ymateb i anghenion y rheiny sydd yn y perygl mwyaf yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Rydym yn parhau i ddiweddaru a thrawsnewid sut y mae cefnogaeth yn cael ei chyflenwi. Mae’r agenda ymyrraeth gynnar a rhwystro yn parhau i lywio sut rydym yn gweithredu. Mae ein Tîm Canolbwyntio ar y Teulu yn parhau i gyflenwi cymorth dwys i blant a theuluoedd er mwyn lleihau risg ac angen.
.

> *Cyfarfod positif iawn. A diolch i chi am bopeth. Nid yn unig y plant a ninnau yn unigol, ond rydych wedi ein helpu i gael ein perthynas yn ôl ar y llwybr iawn. Ac rydych wedi helpu xxxx mewn cymaint o ffyrdd na fuasech yn eu deall.*

*Aelod teulu*

Gwasanaeth ymyrraeth therapiwtig yw MyST sy’n gweithio gyda phlant sy’n ceisio goresgyn trafferthion arwyddocaol. Nod MyST yw helpu pobl ifanc i ddatblygu mwy o les emosiynol a rheolaeth dros eu hymddygiad fel y gallant fod mewn perthnasau ystyrlon, cymryd rhan yn y gymuned mewn ffordd gadarnhaol, cymryd mantais o gyfleoedd mewn addysg a dysgu a byw’n briodol mewn cartref yn annibynnol.

Mae MyST yn cynnig dewis amgen i ofal preswyl neu ofal y tu allan i’r sir trwy ddarparu gofal cofleidiol dwys trwy Leoliadau Maethu Therapiwtig, gofal gan berthnasau a chefnogi lleoliadau maeth yn y brif ffrwd yng nghymuned leol y bobl ifanc. Mae MyST hefyd yn cynorthwyo plant o fewn eu teuluoedd i rwystro’r angen am ofal amgen. Mae MyST yn rhoi gwasanaeth dwys iawn, sy’n angenrheidiol ar gyfer nifer fach o bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth yn ein bwrdeistref. I gydnabod yr angen difrifol am y gwasanaeth hwn ac fel rhan o drawsnewid agenda gwasanaethau plant, rydym ni wedi parhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth.

Mae llwyddiant gwasanaeth MyST Torfaen wedi ei gydnabod yn rhanbarthol ac mae’r cynllun nawr yn bodoli ym mhump ardal awdurdod lleol Gwent. Mae hyn yn darparu economi graddfa ac yn hybu dull cyson ledled Gwent mewn partneriaeth â BIPAB o ran rheoli anghenion cymhleth.

Yn 2022/23 a thu hwnt, bydd ein Grŵp Arweinwyr Diogelu Corfforaethol yn parhau i ddatblygu a gweithredu cynllun gwaith a fydd yn ymateb i themâu diogelu plant ac oedolion ac adnabod a mynd i'r afael â meysydd i wella diogelu ar draws y sefydliad.

Bydd Torfaen yn parhau i fod yn ymroddedig i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael cynllun gofal a chymorth cymesur a bod ceisiadau priodol a rhyddhau gorchmynion gofal yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae achosion yn cael eu cyflwyno i Banel Plant Agored i Niwed a phanel Achosion Cymhleth sy'n cael eu cadeirio gan aelodau o'r uwch dîm rheoli. Mae'r paneli yma'n monitro ac yn cymeradwyo pob cynllun ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn gofal neu ar fin mynd i mewn i ofal er mwyn sicrhau cysondeb. Bydd pwyslais parhaol yn parhau ar hybu agenda Ymyrraeth Gynnar ac Atal.

Mae CRhB (Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant) yn parhau i fod yn flaenoriaeth leol a rhanbarthol, mae cydweithio rhwng asiantaethau'n sicrhau bod y rheiny sydd mewn perygl yn cael eu hadnabod mewn da bryd. Mae Heddlu Gwent a Thîm Diogelu Torfaen wedi cydweithio i gyflwyno fforwm Aml Asiantaeth ar Gam-fanteisio Rhywiol i Dorfaen, ac erbyn hyn mae'r model yma wedi ei gyflwyno ar draws y rhanbarth. Pwrpas y fforwm hwn yw nodi materion strategol ac unrhyw rwystrau i reoli achosion. Mae canolfan ragoriaeth genedlaethol ar gyfer CRhB wedi ei datblygu gyda hybiau rhanbarthol yn rhannu dysgu ac arfer da. Mae Torfaen wedi clustnodi staff i gydweithio o fewn yr hwb rhanbarthol yma i ddatblygu arferion cyson ar draws rhanbarth Gwent ar fater CRhB.

Mae'r rhanbarth yn paratoi i weithredu Trefniadau Amddiffyn Rhyddid a fydd yn disodli trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, sydd yno i amddiffyn ein trigolion mwyaf bregus. Rydym yn canolbwyntio o'r newydd ar ddeall y Ddeddf Galluedd Meddyliol, gan y bydd hyn yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd.

## D. <u>Annog a chefnogi pobl i ddysgu, deall a chymryd rhan mewn cymdeithas</u>

Mae hybu a chefnogi pobl i wneud y pethau sydd o'r pwys mwyaf iddyn nhw, a'u helpu i lwyddo yn eu deilliannau personol yn rhan hanfodol o'n rôl.

Mae datblygiad "Mireinio ac Ailgynllunio" cyfleoedd dydd wedi parhau trwy gydol 2021/22. Mae COVID-19 wedi ail-siapio'r berthynas rhwng y sawl sy'n defnyddio'r ddarpariaeth a'r awdurdod lleol. Rydym wedi gweld angen yn dod i'r amlwg am y newid hwn o ran adfer a darparu gwasanaethau. Mae'r cysyniad o 'ddiwrnod da' yn cyd-fynd â'r syniadau o adeiladu'n ôl yn well (neu adeiladu'n ôl yn wahanol) fel y mae wedi'i ymgorffori mewn polisi a deddfwriaeth gyfoes (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014; Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)). Mae'r ymrwymiad i wella llais pobl dros eu bywydau eu hunain yn sail i werthoedd trawsnewid y modd y darperir gofal cymdeithasol trwy annog cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.

Mae COVID 19 wedi cyflwyno rhai rhwystrau fel gwneud asesu wyneb yn wyneb yn anoddach, ond yn yr un modd mae'r saib mewn gwasanaeth yn rhoi lle i feddwl yn greadigol ac atgyfnerthu partneriaethau.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i drawsnewid cyfleoedd dydd mewn partneriaeth ag eraill yn enwedig y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a'u teuluoedd. Rydym yn cydnabod bod atebion cyflym yn annhebygol o gyflawni. Bydd newid parhaus yn galw am newid diwylliant ynghyd â thrawsnewid modelau a systemau gofal. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i ni brofi dulliau newydd, gan fireinio a gwella mewn ymateb i dystiolaeth.

Mae gan blant a phobl ifanc yn Nhorfaen fynediad at amrywiaeth eang o gyfleoedd da i'w helpu i ddatblygu ymddygiadau ac agweddau diogel ac iach sy'n cael effaith cadarnhaol ar eu lles yn gyffredinol. Gyda'n partneriaid rydym yn darparu amrywiaeth da o ddulliau o ddenu plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau ac mae gan rai partneriaid arferion cyfranogi sefydledig sydd wedi eu cydnabod yn genedlaethol.

## E. <u>Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach, mewn ffordd ddiogel</u>

Mae'r strategaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal, wedi ymwreiddio ffocws ataliol o fewn yr awdurdod. Mae hyn wedi arwain at atgyfnerthu prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf gyda chefnogaeth gwaith cymdeithasol proffesiynol a dull partneriaeth o ariannu ymyrraeth gynnar ar adeg atgyfeiriad. Mae Tîm Ffocws ar Deuluoedd hefyd wedi ei gryfhau gyda staff ychwanegol i gefnogi gwaith Teuluoedd yn Gyntaf. Mae hyn yn golygu bod mwy o deuluoedd, a allai fod mewn perygl o fod angen ymyrraeth statudol, yn derbyn cefnogaeth i'w cynorthwyo gyda rhianta ac ar adeg gynharach ym mywydau eu plant.

Mae 61% o'r holl bobl sy'n gadael gofal, mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, 12 mis ar ôl gadael gofal.

Mae asesiad seiliedig ar gryfder, canolbwyntio ar y person yn y Gwasanaethau Oedolion yn cynnwys adnabod unrhyw rwystrau i oedolyn gynnal perthynas o'r fath a gweithio gyda'r unigolyn i oresgyn y rhwystrau hynny.

Enghreifftiau o sut cefnogir unigolion i gynnal a datblygu perthnasau personol a chymunedol yw'r prosiect Diwrnod Da, y cyfleoedd cymdeithasol a hamdden cynhwysol a gynigir gan Dŷ Glas Y Dorlan a gwaith y cysylltwyr cymunedol lle maent yn gweithio gydag unigolion i'w helpu i ganfod cyfleoedd cymunedol ystyrlon.

Yn 2022/23 a thu hwnt byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu modelau aml asiantaeth ar sail lle sy'n cynnwys partneriaid ehangach fel cymdeithasau tai, cymorth cyflogaeth a rhaglenni cymunedol i bobl ag iechyd meddwl gwael.

Byddwn yn annog ac yn hybu grwpiau cymunedol a chyfeillgarwch

Byddwn yn parhau i gydnabod rôl, a datblygu gwasanaethau a chefnogi gofalwyr o bob oedran yn Nhorfaen.

Byddwn yn cefnogi adolygu ac ail-gyflunio egwyddorion comisiynu'r trydydd sector i gefnogi cyfeillgarwch i ofalwyr sydd angen cefnogaeth.

## F. Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i wella'u lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion

Gan ymateb i newidiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru y llynedd rydym wedi parhau i weithredu'r Grant Cymorth Tai (HSG) sy'n dwyn ynghyd dair ffrwd ariannu (Grant Rhaglen Cefnogi Pobl, Grant Atal Digartrefedd, a Chyllid Rhentu Doeth Cymru).

Trwy'r Grant Cymorth Tai, rydym wedi ad-drefnu a thendro ar gyfer y gwasanaethau canlynol i ddiwallu anghenion cymunedau yn Nhorfaen:

- Gwasanaethau Cymorth VAWDASV
- Darpariaeth Hostel Generig
- Gwasanaethau troseddwyr Rhanbarthol
- Llwybr Pobl ifanc (cydweithrediad gyda gwasanaethau Plant a Theuluoedd)

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â darparwyr trydydd sector i ehangu capasiti lle bo angen a pheilotio gwasanaethau newydd megis Tai yn Gyntaf ac Allgymorth Pendant er mwyn ymateb i'r galw a'r heriau a wynebir gan ein cymunedau.

Mae adborth gan ddefnyddwyr, gofalwyr a thrigolion wedi atgyfnerthu'r neges fod pobl eisiau annibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain, beth bynnag yw eu hamgylchiadau. Mae 'Gartref yn Gyntaf' wedi dod yn arwyddair yn y maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion er mwyn sicrhau fod pob dewis o ran cymorth cymunedol wedi eu hystyried cyn ystyried lleoliadau tymor hir. Wrth gwrs, bydd o hyd angen lleoliadau gofal preswyl a nyrsio sy'n cynnig amgylchedd diogel a chyfeillgar i bobl ag anghenion cymhleth cyn ystyried lleoliadau tymor hir.

Mae gan bob person ifanc sy'n gadael gofal weithiwr cymdeithasol penodol i'w cefnogi a chynghorydd personol i gefnogi eu hamgylchiadau unigol. Mae'r tîm 16+, fel rhan o Wasanaeth Cymorth Pobl Ifanc Torfaen (TYPSS), yn rhoi rhan fwyaf y gefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal gan ymgymryd â'r dyletswyddau gwaith cymdeithasol statudol ac mae'n cydymffurfio â gofynion Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000.
Fe wnaeth 0.6% o'n rhai a adawodd ofal, wynebu digartrefedd yn ystod 2021/22.

Gan weithio gyda thimau Gwasanaethau Plant, mae ein Huned Gomisiynu wedi datblygu Gwasanaeth Cymorth Gwell (ESS) a Llwybr Llety â Chymorth ar gyfer pobl ifanc yn gadael gofal. Mae'r gwasanaeth hwn, gyda mynediad at lety â chymorth a chymorth yn y gymuned, yn galluogi i bobl ifanc fyw yn eu cartrefi eu hunain, yn eu galluogi i fyw'n annibynnol wrth gael cefnogaeth i fod yn annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig mwy o ddewis a rheolaeth i bobl ifanc yn eu bywydau wrth fyw yn y gymuned o'u dewis eu hunain. Mae'n gwella ansawdd bywyd, yn lleihau problemau cymdeithasol, yn rhoi cyfle i gynyddu annibyniaeth i'r eithaf a chynyddu cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau.

Mae gweithwyr proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol bob dydd yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. I lawer o deuluoedd ac unigolion, mae gofal o ansawdd uchel yn golygu'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau trwy gyfrwng Cymraeg, oherwydd eu bod yn teimlo'n fwy cysurus yn eu hiaith eu hunain. Mae mynd ati i ofyn i bobl am eu dewis iaith, a chynnig gwasanaethau yn Gymraeg wedi bod yn

egwyddor allweddol *Fwy Na Geiriau* i gryfhau darpariaeth Gymraeg ei hiaith mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ym mis Hydref 2021 sefydlwyd grŵp bychan gorchwyl a gorffen gan LIC i ddatblygu cynllun pum mlynedd *Mwy na Geiriau* ar ôl gwerthusiad annibynnol o'r fframwaith. Bydd y cynllun 5 mlynedd yn seiliedig ar y themâu canlynol, a ddaeth allan o waith y grŵp gorchwyl a gorffen:

- Diwylliant ac arweinyddiaeth
- Cynllunio a pholisïau'r iaith Gymraeg
- Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu
- Rhannu arferion gorau a datblygu dull galluogi

Mae gofal cymdeithasol yn ymroddedig i'r cynllun 5 mlynedd sydd i'w lansio ym mis Awst 2022. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddeall y gofynion Iaith Gymraeg sydd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth sydd mewn gofal preswyl a nyrsio.

Mae oedolion Torfaen yn Saesneg eu hiaith yn bennaf, a 9.8% yn unig sy'n siaradwyr Cymraeg. Serch hynny, mae mwy o Blant a Phobl ifanc yn mynychu ysgolion Cymraeg ac yn defnyddio Cymraeg o ran dewis. Felly, mae cynyddu gallu'r gweithlu i siarad Cymraeg mewn meysydd gwasanaeth allweddol a sicrhau ymwybyddiaeth ieithyddol ymhlith staff yn hanfodol.

Bydd nifer isel y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref, sef 9.8%, yn golygu y bydd darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn heriol bob tro, ond rydym yn parhau i gydnabod mewn ffordd gadarnhaol, pwysigrwydd cyflenwi'r gwasanaeth trwy'r Gymraeg i rai defnyddwyr gwasanaeth ac rydym felly wedi cynnal arolygon gyda staff, gweithluoedd darparwyr a Gofalwyr i'n cynorthwyo i gynnig gwasanaethau gofal cymdeithasol yn Gymraeg trwy'r Fwrdeistref. Hefyd, mae mynychu'r grŵp rhanbarthol 'Mwy Na Geiriau' yn ein galluogi i rannu dysgu ac arfer gorau gyda chydweithwyr o Awdurdodau Lleol eraill a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae angen i ni sicrhau ein bod yn parhau i wella ansawdd gofal tra'n cynnal safonau proffesiynol (a thrwy wneud hynny) a chydymffurfio gyda gofynion statudol wrth ddiwallu anghenion iaith defnyddwyr gwasanaeth.

Yn 2022/23 a thu hwnt, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ac ar draws cyfarwyddiaethau i wella llesiant trigolion Torfaen.

Byddwn yn parhau i weithredu ein hwb cymunedol, Tŷ Glas Y Dorlan a gwerthuso'n llawn ei effeithiolrwydd a sicrhau ein bod yn:

- Darparu atebion priodol i unigolion sy'n hyrwyddo annibyniaeth, cymryd risgiau positif a chynhwysiant cymdeithasol
- Lleihau aneffeithlonrwydd
- Cynnig hyblygrwydd
- Galluogi annibyniaeth
- Defnyddio stoc dai amgen

Byddwn yn mabwysiadu a gweithio o fewn cynllun gweithredu diwygiedig pum mlynedd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â *Mwy na Geiriau* gan sicrhau ein bod yn mabwysiadu'r fframwaith rheoli perfformiad a fydd yn mesur cynnydd o gymharu a chamau gweithredu yn y cynllun.

## 6. SUT YR YDYM YN GWNEUD YR HYN YR YDYM YN EI WNEUD

### A. Ein gweithlu a sut yr ydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol

Ein staff yw ein hased mwyaf; mae gweithlu brwdfrydig â sgiliau yn hanfodol i ddiogelu a chefnogi pobl fregus, hybu annibyniaeth a gwella'r modd o gyflenwi gwasanaeth. Mae sicrhau fod ymarferwyr ar y rheng flaen a rheolwyr yn cael eu cefnogi ac wedi eu hyfforddi'n dda yn hanfodol i lwyddiant y gwasanaeth. Drwy gydol eleni, mae ein gweithlu wedi wynebu'r her a gynrychiolir gan y pandemig, ond rydym yn dechrau gweld effaith y pandemig a'r pwysau cysylltiedig ar ein gweithlu. Nid yw hyn yn unigryw i Dorfaen ac mae'n realiti i'r gweithlu gofal cymdeithasol yn genedlaethol.

Rhaid cydnabod bod perfformiad unrhyw wasanaeth yn dibynnu ar y staff sy'n cyflwyno'r gefnogaeth a'r swyddogaethau yn ddyddiol. Mae'r staff wedi croesawu'r angen i addasu ac ymateb i ystod ehangach a mwy cymhleth o anghenion a gofynion. I gefnogi'r trawsnewid, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn nysgu, datblygu a lles ein staff trwy hyfforddiant parhaus, trafodaethau sy'n ennyn cyfranogiad, goruchwyliaeth grŵp ac 1:1 ac adolygiadau blynyddol o gyrchnodau'r tîm.

Rydym wedi magu hyder a sgiliau yn y timau i ddefnyddio eu hunain fel ymyrraeth trwy berthynas / sgwrs i atal dibyniaeth ar wasanaethau.
Rydym yn annog diwylliant o ddysgu trwy feithrin cyfleoedd datblygu, ac rydym yn hwyluso profiadau dysgu positif ar gyfer myfyrwyr therapi galwedigaethol a gwaith cymdeithasol mewn timau. Rydym yn credu yn y syniad o “feithrin eich adnoddau eich hunan” ac rydym wedi galluogi i staff ddatblygu mewn rolau presennol a rhai newydd.

Mewn ymateb i'r angen newidiol, rydym wedi comisiynu hyfforddiant ychwanegol ac wedi darparu cyfleoedd datblygu, er enghraifft:

- Hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol ar gyfer pob aelod o'r timau ardal i oedolion i helpu i ddatblygu eu sgiliau mewn sgyrsiau anodd a chydgynhyrchu
- Ymwybyddiaeth o awtistiaeth
- Rheoli ymddygiad yn bositif
- Hyfforddiant Cyfeillion Dementia yn Nhîm Canolog Cwmbrân
- Llunio adroddiadau 'SQI'
- Paru lleoliadau
- Parhau i gyflwyno hyfforddiant manwl gan y gwasanaeth ymlyniad yng Ngwent
- Cynnig hyfforddiant unigol penodol yn seiliedig ar gynlluniau datblygu unigolion.

Yn gyfnewid am hyn, mae staff yn llawn cymhelliant ac yn nodi eu bod yn fodlon yn eu swyddi sy'n arwain at well cadw a recriwtio mewn rhai ardaloedd. Gwnaethom gynnal gweithlu sefydlog a hyrwyddo dilyniant gyrfa yn y maes gwasanaeth ac wedi cynyddu capasiti lle mae'r angen wedi'i nodi.

Mae swyddogaethau Adnoddau Dynol yn cael eu cyflenwi’n ganolog ac maen nhw wedi eu lleoli’n gorfforaethol yn yr Isadran Adnoddau; ar y cyfan mae hyn yn sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor cyfan ar lefel strategol a gweithredol. Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda nhw.

Rydym wedi sicrhau bod gan staff, lle bo angen, fynediad at gymorth iechyd galwedigaethol a chymorth perthnasol megis gwasanaethau cwnsela.

Rydym yn rhoi gwerth mawr ar staff, rhai mewnol ac ar draws y sector fel ei gilydd ac rydym yn ymdrechu i gefnogi timau ac unigolion i gyflawni eu rôl hyd eithaf eu gallu. Rydym yn hyrwyddo rheoli perfformiad effeithiol ar bob lefel, i gefnogi staff i gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol i gael y deilliannau gorau i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Mae Tîm partneriaeth Ranbarthol Gwent yn parhau i gefnogi Consortiwm Coleg Gyrfaoedd Rhanbarthol. Tri nod y consortiwm yw:

- Helpu i gyflwyno ffynhonnell newydd o staff sydd eisoes â chysylltiad â’r sector, gan gyflenwi talent i Awdurdodau Lleol, ysbytai a darparwyr gofal lleol.
- Cefnogi egwyddorion yr Economi Sylfaenol drwy ddatblygu sgiliau a thalentau mewn cymunedau lleol wrth gyflawni gweledigaeth strategaeth cyd-weithlu HEIW a SCW.
- Sicrhau bod gofal yn bwysig a bod ganddo werth yn y rhanbarth i ystod eang o bobl sydd efallai eisiau mynd i’r maes neu gael dyrchafiad yn y gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Bydd gwell ymgysylltiad â myfyrwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn helpu i gynyddu capasiti gofal ac, o bosib, yn gwella gweithrediad iechyd a gofal cymdeithasol drwy annog pobl i’r sector. Bydd creu mwy o gymorth a chyfleoedd gwaith i fyfyrwyr yn darparu ateb cynaliadwy i’n problemau dwys cenedlaethol a lleol o ran recriwtio a chapasiti, tra’n cefnogi egwyddorion yr Economi Sylfaenol drwy ddatblygu sgiliau a thalentau mewn cymunedau lleol. Gobeithir y bydd y consortiwm yn darparu dull cynaliadwy hirdymor tuag at ddiwallu anghenion gweithlu’r dyfodol ar draws y sector.

Mae fframwaith rhanbarthol wedi ei ddatblygu i hwyluso lleoliadau myfyrwyr o fewn BIPAB a thimau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol i ddarparu dysgu drwy brofiad a chyfleoedd datblygu i fyfyrwyr. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi chwarae rôl allweddol o ran datblygu’r fframwaith yma ac annog timau gofal cymdeithasol mewnol i ystyried lleoliadau myfyrwyr. Bydd lleoliadau gwaith nid yn unig yn helpu myfyrwyr i gyflawni oriau dysgu seiliedig ar waith er mwyn cael cymwysterau, ond

hefyd yn ehangu eu profiadau a'u gwybodaeth o lwybrau gyrfa o fewn y sector a darparu cyfleoedd ar gyfer recriwtio.




Mae Rhaglen Datblygu gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) yn rhaglen grant sy'n cefnogi hyfforddiant, dysgu a datblygiad ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn Nhorfaen. Mae'r Bwrdd Datblygu gweithlu Rhanbarthol (RWDB), is-raglen y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, yn darparu trefniadau llywodraethu i'r rhaglen SCWWDP. Y Prif Weithredwr ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cadeirio'r RWDB.

Mae cyllid grant SCWWDP wedi parhau ar lefel  gyson yn ystod 2021/22 ar gyfer Torfaen, gyda chynnydd bychan i gefnogi cynnydd mewn gweithwyr cymdeithasol cymwysedig ar draws y rhanbarth. Mae datblygu'r gweithlu yn parhau i fod yn hanfodol o ran datblygu a chadw sgiliau, cefnogi cynllunio dilyniant effeithiol a bodloni gofynion cofrestru. Parhaodd y grant i gefnogi trawsnewid digidol, gan alluogi buddsoddiad pellach mewn dysgu arlein ac adnoddau digidol i gefnogi anghenion y gweithlu.

Roedd y Tîm Datblygu Sefydliadol yn gallu ymateb yn gyflym i newidiadau wrth i COVID-19 ddatblygu drwy'r flwyddyn a chefnogi Gwasanaethau Oedolion yn eu cynllunio ar gyfer argyfwng, gan eu galluogi i barhau i ddiwallu anghenion eu gweithlu a dinasyddion Torfaen yn ddiogel.

Yn ystod 2021/22 rydym wedi gallu cynnig 2654 lle hyfforddi i'r gweithlu gofal cymdeithasol ledled Torfaen: 82 yn y dosbarth a 1280 rhithwir, 1292 mewn eDdysgu.

Drwy weithio'n agos gyda sefydliadau Addysg Uwch a'n meysydd gwasanaeth roeddem yn gallu parhau gyda'n cynnig hyfforddeiaeth ar gyfer pum aelod staff a chynnal 24 o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol uniongyrchol ar leoliad.

Yn ogystal, yn ystod 2021/22, gwnaethom gefnogi 27 aelod o staff a 2 Ofalwr Maeth i barhau i weithio tuag at y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol perthnasol (ar naill ai Lefel 2 neu 3); 13 aelod o staff i gyflawni Cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4; a 10 aelod o staff newydd gymhwyso yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn ymarfer. Rydym hefyd wedi galluogi 18 o weithwyr cymdeithasol i barhau â'u haddysg ôl-gymhwysol a 2 reolwr i gymryd rhan yn y Rhaglen Datblygu Rheoli Tîm.

Drwy ein gwaith gyda chydweithwyr yng Ngwent, a'r Bartneriaeth Ranbarthol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, rydym wedi datblygu dull cyson, rhanbarthol, cydgysylltiedig tuag at gefnogi myfyrwyr gofal cymdeithasol i gael lleoliadau o fewn yr awdurdod. Yn 2021/22 croeswyd un myfyriwr o Goleg Gwent ac rydym yn ymroddedig i gynyddu'r nifer hwn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae Llawlyfr Staff ein Gwasanaethau Oedolion yn cynnwys ein polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau sydd wedi bod yn anhepgor i ddechreuwyr newydd a hefyd i staff cyfredol wrth sicrhau bod gennym y trefniadau rheoli priodol ar waith. Gyrrir gwelliant hefyd gan y Fforwm Ymarferwyr sy'n edrych ar enghreifftiau o arfer gorau ac sy'n galluogi cymorth, mentora a dysgu.

Ein dull o weithio yw herio a chefnogi, er mwyn defnyddio sgiliau, arbenigedd a gallu ein timau i'r eithaf. Rydym yn gweld tystiolaeth mewn perfformiad gwell yn y gwasanaeth a chyfraddau salwch, er gwaethaf y pwysau ar dimau.

Mae recriwtio i'r gwasanaeth gofal yn y cartref yn fewnol ac yn allanol yn parhau i fod yn her ac mae'n flaenoriaeth ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar draws y rhanbarth.

Mae'r swydd gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol yn y gwasanaethau plant a theuluoedd wedi bod yn offerynnol o ran datblygu a chefnogi hyfforddiant a dysgu fel y mae'n ymwneud â'r dull seiliedig ar gryfderau mewn practis. Mae'r rôl wedi darparu cymorth a datblygiad parhaus i staff newydd gymhwyso ac wedi cefnogi holl aelodau staff mewn amrywiol gyfnodau datblygiad.

Yn a thu hwnt i 2022/23 byddwn yn parhau i weithio'n rhanbarthol ac yn gydweithredol gyda phartneriaid i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd gwaith cydweithredol ac adnoddau lle bo modd, i leihau dyblygu a chyflenwi blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer datblygu'r gweithlu.

Byddwn hefyd yn parhau i ystyried dulliau creadigol ac amgen er mwyn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r rôl bwysig y mae cyflogwyr yn ei chwarae o ran siapio'r gweithlu yn y dyfodol ac felly byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid perthnasol Addysg Uwch ac Addysg Bellach i sicrhau bod lleoliadau priodol ysbrydoledig a diogel ar gael i fyfyrwyr o amrywiol raglenni perthnasol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cydweithwyr Adnoddau Dynol er mwyn adolygu a datblygu ein ymgyrchoedd recriwtio a pharhau i wneud Torfaen yn awdurdod lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a lle gallent ddatblygu yn unol a'u dyheadau nhw ar y cyd ag anghenion y gwasanaeth a datblygiadau.

## B. Ein hadnoddau ariannol a sut rydym am gynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae 2021/22 wedi bod yn flwyddyn heriol arall ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Thai, gydag angen i arbed £1,847,000, fel y cytunwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021, yn erbyn cefndir o alw cynyddol a phandemig Covid. Cydnabyddir bod Gofal Cymdeithasol yn offerynnol o ran amddiffyn y sawl sydd fwyaf agored i niwed ac yn unol â blaenoriaethau y Cynllun Corfforaethol. Rydym wedi derbyn cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol arwyddocaol i wneud dewisiadau polisi a gwasanaeth anodd. Rydym yn rhagweld y bydd angen gwneud dewisiadau polisi pellach yn y blynyddoedd i ddod, a bydd y penderfyniadau yn anodd iawn.

Cyllideb y Gyfarwyddiaeth yn 2021/22 oedd:

| | | |
|---|---|---|
| | | £ |
| Plant a Chymunedau | | |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 19,836,948 | |
| Adfywio Cymunedol | 529,684 | |
| Y Fferm Gymunedol | 130,874 | |
| Cyfanswm y Gwasanaethau Plant ac Oedolion | | 20,497,506 |
| Oedolion, Tai a Chomisiynu | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 27,724,717 | |
| Rheoli newid, cynaliadwyedd a Chefnogi Systemau | 512,765 | |
| Gwasanaethau Tai a Chomisiynu | 885,833 | |
| Cyfanswm Oedolion, Tai a Chomisiynu | | 29,123,315 |
| Strategaeth Gofal Cymdeithasol | | (1,097,855) |
| **Cyfanswm** | | **48,522,966** |

In 2021/22 roedd yr arbedion a nodwyd ar gyfer Gwasanaethau Oedolion yn canolbwyntio ar leihau gwariant trydydd parti trwy barhau â'r dull cymorth ar sail Cymuned a oedd yn adnabod ac yn meithrin cryfderau, rhwydweithiau person a sgiliau ynghyd â chreadigrwydd, galluogi a hunan-reolaeth a gwytnwch yn unol ag egwyddorion galluogi Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Roedd yr arbedion ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn 2021/22 yn canolbwyntio ar leihau gwariant trydydd parti a chreu pecynnau cymorth o'r maint cywir ar lefelau mwy priodol wrth ganolbwyntio ar ganlyniadau, yn enwedig mewn perthynas a lleoliadau cost uchel.

Mae Torfaen yn gweithredu proses lem wrth fonitro'r gyllideb i sicrhau y gwneir y mwyaf o'n hadnoddau i gyd a'u bod yn cael yn cael eu defnyddio ar yr adeg briodol,

yn y lle priodol er mwyn cael y canlyniadau gorau ar unrhyw adeg. Gydag adroddiadau rheolaidd i ddeiliaid cyllidebau, ble mae pwysau yn cael eu hadnabod mae mesurau lliniaru amgen yn cael eu hystyried a, ble mae angen dull strategol o gomisiynu gwasanaethau. Mae ffocws yr Uned Gomisiynu yn ddigon hyblyg i ymateb i broblemau y gwyddys amdanynt wrth ddarparu gwasanaethau, sy'n hanfodol.

Yn ystod 2021/22 parhaodd y pum cyngor a'r Bwrdd Iechyd i weithio tuag at ddull rhanbarthol o gomisiynu gofal preswyl i bobl 65 oed neu hŷn, ac fe wnaeth Torfaen barhau i arwain rheolaeth y gronfa rithiol o adnoddau, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Rydym yn cydnabod bod yr hinsawdd economaidd bresennol ac effaith y pandemig yn y tymor byr a'r hyn a ddisgwylir yn y tymor hir, yn rhoi pwysau sylweddol ar unigolion, partneriaid, darparwyr a'r sector cyhoeddus. Rydym yn canolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau ein bod yn cyflenwi gwasanaethau o ansawdd am gost briodol a chynaliadwy. Mae'n rhaid gwneud dewisiadau anodd ond mae hyn yn cael ei wneud o fewn fframwaith asesu risg, ac ar y cyd a phartneriaid a defnyddwyr gwasanaeth, gan sicrhau ein bod yn cadw plant ac oedolion bregus yn ddiogel. Rydym yn gweld rôl Cynghrair Gwirfoddol Torfaen a phartneriaid eraill, fel un hanfodol o ran cefnogi sefydliadau i ddenu arian newydd a chyflawni effeithlonrwydd ar draws y trydydd sector. Mae rôl sylweddol gan y Trydydd Sector, o ran roi cefnogaeth ataliol ac ymyrraeth gynnar i reoli'r galw ar wasanaethau statudol ac rydym yn gobeithio bod ein fforymau rhanbarthol i drigolion a darparwyr yn ein helpu i ffurfio modelau gwasanaethau'r dyfodol sy'n effeithlon ac yn effeithiol wrth ymateb i anghenion unigol.

Mae tua 85% o'r gyllideb gofal cymdeithasol gyfan yn cael ei wario ar wasanaethau dan gontract allanol; rydym wedi gosod y rhan fwyaf o ddarpariaeth uniongyrchol yn allanol ac wedi datblygu arbenigedd mewn comisiynu. Mae darpariaeth fewnol yn fach iawn, gyda gwasanaeth gofal cartref arbenigol bach a nifer o gyfleoedd dydd i bobl ag anghenion uchel. Rydym yn cydnabod bod comisiynu ar sail tystiolaeth yn hanfodol i sefydlogrwydd marchnad gofal cymdeithasol bywiog, fel y gall trigolion wneud dewisiadau ynglŷn â'r ffordd y mae eu hanghenion am ofal a chefnogaeth yn cael eu diwallu.

Yn 2022/23 a thu hwnt, byddwn yn gweithio ar draws y cyngor i sicrhau bod trigolion yn cael y cymorth priodol ar yr adeg iawn. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cydweithwyr yn y gyfarwyddiaeth cymunedau er mwyn gwella gwytnwch cymunedol a hyrwyddo annibyniaeth er mwyn atal a gorfod symud drwy'r system a'r angen i gyflogi gwasanaethau statudol.

Byddwn yn parhau i adolygu ein swyddogaethau a'n strwythurau yn y gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant a theuluoedd er mwyn sicrhau bod gennym y systemau mwyaf effeithiol ac effeithlon ac er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio a'n bid yn gwneud y mwyaf ohonynt.

Byddwn yn parhau i adolygu ein strategaeth leoliadau o fewn gwasanaethau plant a theuluoedd, yn enwedig fel y mae'n ymwneud â lleoliadau cost uchel ac argaeledd ac addasrwydd lleoliadau o'r fath.

## C. Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol ac atebolrwydd

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cyfeirio adnoddau i helpu cefnogi'r mwyaf bregus mewn cymdeithas. Mae Torfaen yn awdurdod modern a blaengar sy'n cydweithio â phartneriaid i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Mae gan Torfaen hanes hir o weithio mewn partneriaeth, a dangosodd 2021/22 gryfder y partneriaethau hyn wrth i ni barhau i gael ein heffeithio gan covid.

Mae Swyddogion, Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ac aelodau etholedig yn ymgysylltu'n dda gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ac yn rhannu gweledigaeth gyffredin ac atebolrwydd sy'n sicrhau bod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i addysg a gwella deilliannau i blant a phobl ifanc.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi effeithio'n sylweddol ar sut yr ydym yn gweithio gyda phobl fregus. Ei bwriad oedd rhoi fframwaith i alluogi awdurdodau lleol, mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol, i fynd i'r afael â'r galw sy'n wynebu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae angen o hyd am newidiadau yn nisgwyliadau'r gymuned wrth i'r sector cyhoeddus ymdrechu i reoli'r anghenion newidiol yn y boblogaeth ochr yn ochr â'r galw am wasanaethau, ar cyfan oll yng nghyd-destun adnoddau sy'n lleihau. Mae cydweithrediad wedi ei yrru gan osod dyletswyddau ar lywodraeth leol, Byrddau Iechyd Lleol a chyrff cyhoeddus eraill i gyd weithio i wella lles pobl, trwy gyfunioni sgiliau pawb ac adnoddau'n well.
Er y gall gweithio ar draws asiantaethau gwahanol fod yn gymhleth ac yn heriol rydym yn rhan o fframwaith strategol sy'n gweithredu fel galluogwr i fwy o gydweithredu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol; mae'r Bwrdd Partneriaeth ranbarthol yn offerynnol o ran hyrwyddo cydweithrediad o'r fath.

Mae Torfaen yn cynnal y Tîm Partneriaeth Ranbarthol sy'n chwarae rôl hollbwysig o ran datblygu cydweithrediad gyda gofal cymdeithasol ar draws awdurdodau lleol a BIPAB. Mae'r tîm yn cydgysylltu nifer o agweddau ar y gwaith rhanbarthol ac yn darparu ystod eang o swyddogaethau sy'n hanfodol i waith partneriaeth.

Rydym yn cydweithio gydag awdurdodau lleol eraill, y bwrdd iechyd lleol, partneriaid eraill yn ogystal â'r rheini sy'n darparu gwasanaeth i ni, i sicrhau bod safonau gwasanaeth yn cael eu cynnal am y gost orau posib. Ar yr un pryd rydym yn cydnabod fod gan ddarparwyr gwasanaeth eu pwysau eu hunain o ran costau, a'u bod yn gorfod cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n newid a fydd yn siŵr o effeithio ar hyfywdra a chynaliadwyedd eu busnesau.

Yn ystod 2021/22, buom yn gweithio gyda'n partneriaid, gan arwain at well canlyniadau i ddinasyddion Torfaen ynghyd a'r rhanbarth. Un o'r pethau a leisiwyd yn glir gan ddefnyddwyr gwasanaeth oedd rhwystredigaeth gyda dyblygu rhwng asiantaethau. Galluogodd y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig i ni wneud i ffwrdd

â pheth o hyn. Ond, os ydym am gynnig ymatebion wedi eu teilwra i ddiwallu anghenion unigryw pobl, nid yw un ateb yn addas i bawb ac i rai gwasanaethau, mae'n briodol cadw ffocws lleol i ymateb i angen lleol.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn goruchwylio ein swyddogaethau a chyflenwad gwasanaeth ac yn gweithredu fel rheolyddion i sicrhau bod safonau yn cael eu bodloni, ein yn cydymffurfio â deddfwriaeth a bod datblygiad a gwelliannau parhaus i'n harferion.

Mae ein haelodau yn craffu ar ein gwaith ac yn penderfynu pa feysydd gwaith neu gyflenwi gwasanaeth y maent angen ei adolygu. Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth yn cael ei herio ac y bydd angen i ni roi esboniad i'r aelodau etholedig. Yr her hon, sy'n dod o safbwynt wahanol, gan gynnwys safbwynt cymunedol, sydd wastad yn ddefnyddiol ac yn sicrhau atebolrwydd ar draws y meysydd gwasanaeth.

Cadarnhaodd adborth ar adolygiadau'r Archwiliad Mewnol ar draws y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn fod prosesu diogel mewn grym a, ble nodwyd y meysydd sydd angen eu gwella, mae cynlluniau gwaith wedi eu rhoi ar waith. Adolygodd yr archwilwyr allanol yr holl gyllid sylweddol a dderbyniwyd trwy grantiau allanol. Cafwyd fod pob gwariant yn berthnasol ac yn gyson â thelerau ac amodau pob grant unigol.

Rydym yn gosod safonau uchel ond weithiau mae pethau'n mynd o le. Mae gan bawb sy'n cwyno hawl i gael eu clywed a chael eu cwyn wedi ei ddatrys yn gyflym ac yn effeithiol. Pan fo cwynion yn cael eu derbyn, rydym yn eu derbyn nhw fel rhan hanfodol o'n hadborth ar ein perfformiad, a chredwn ei fod yn bwysig ein bod yn dysgu gwersi trwy sefydlu cynlluniau gweithredu er mwyn osgoi ailadrodd yr un camgymeriadau. Rydym yn sefydliad sy'n gwerthfawrogi ein defnyddwyr gwasanaeth ac yn gwerthfawrogi eu barn. Rydym yn glynu at bob proses mewn perthynas â chwynion ac yn sicrhau ein bod yn delio gyda ac yn rheoli pob cwyn yn effeithiol ac yn effeithlon.

Yn ystod 2021/22 mae nifer y cwynion Cam 1 dderbyniwyd wedi cynyddu o 10 i 14. Cafwyd un ymchwiliad Cam 2. Roedd un gŵyn mewn perthynas â thaliadau a ystyriwyd dan y broses Cwynion Corfforaethol.

Mae'n werth nodi bod 110 o ymholiadau pellach ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a 33 ar gyfer Gwasanaethau Oedolion wedi dod i law. Mewn amgylchiadau lle mae rheolwr wedi cysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth ac wedi datrys y pryder erbyn diwedd y diwrnod canlynol, ni chaiff cysylltiadau eu cofnodi fel cwyn. Ni fyddai eraill wedi cael eu derbyn fel cwyn gan nad oedden nhw'n cwrdd â'r meini prawf neu mae camau cydamserol wedi atal cwyn rhag cael ei dwyn ymlaen. Mae cefnogaeth barhaus gan y rheolwyr wedi helpu i sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu trin yn gyflym ac yn effeithiol.

Yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, cafwyd 6 cwyn Cam 1 a oedd yn ymwneud â materion cyfathrebu, ansawdd gwasanaeth ac asesu. Yn y Gwasanaethau i Oedolion, cafwyd 8 cwyn Cam 1 a oedd yn ymwneud i raddau helaeth, ag asesu, rheoli ac adolygu gofal ac ansawdd y gwasanaeth.

Fel y soniwyd yn flaenorol, o dan Reoliadau Gweithdrefn Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 os caiff cwyn ei datrys er boddhad yr achwynydd, a hynny erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf caiff ei eithrio rhag cael ei hystyried fel cwyn. Mae'r buddsoddiad hwn mewn datrys yn brydlon yn hanfodol i reoli cwynion yn gymwys ac mae'n cefnogi gwaith cydgysylltu parhaus gan y tîm i hyrwyddo datrysiad effeithiol. Mae'n cynyddu boddhad cwsmeriaid gan fod digon o adnoddau yn galluogi ymateb yn gynnar i gwynion.

Cyfanswm yr ymholiadau a’r cwynion a gafodd ei trin yn 2021/22 oedd 158, cynnydd o gymharu â’r 145 a dderbyniwyd yn 2020/21.

Derbyniwyd cyfanswm o 14 o gwynion Cam 1:

- 8 ar gyfer Gwasanaethau Oedolion (2 yr oedd sail iddynt, 1 lle’r oedd sail rhannol ac un heb sail iddi)
- 6 ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (1 â sail iddi, 2 â sail rhannol, 3 heb sail)

Aeth un gŵyn i Gam 2.

| **Crynodeb o gwynion a Dderbyniwyd Ebrill 2018 – Mawrth 2022** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cam 1** | | | | **Cam 2** | | | |
| | **18/19** | **19/20** | **20/21** | **21/22** | **18/19** | **19/20** | **20/21** | **21/22** |
| **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** | 1 | 6 | 8 | 6 | 2 | 1 | 0 | 1 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 1 | 3 | 2 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Cwynion** | 2 | 9 | 10 | 14 | 2 | 1 | 0 | 1 |

Mae’r tabl isod yn nodi dadansoddiad o’r cwynion dros y 3 blynedd ddiwethaf:

| **Cwynion ar gyfer Ebrill 2019 – Mawrth 2022 yn ôl Is-adran** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2019/20** | | **2020/21** | | **2021/22** | |
| | **PaTh** | **GO** | **PaTH** | **GO** | **PaTH** | **GO** |
| **Mynediad** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Asesiad** | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| **Rheoli ac Adolygu Gofal** | 0 | 0 | 1 | 2 | 3 | 2 |
| **Ystod Gwasanaethau** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Gwasanaeth** | 5 | 2 | 6 | 0 | 2 | 3 |
| **Hyrwyddo Annibyniaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm y Cwynion** | **6** | **3** | **8** | **2** | **6** | **8** |

Roedd pum cwyn eleni yn ymwneud ag Ansawdd Gwasanaeth, a phump arall ynglŷn â Rheoli ac Adolygu Gofal, tair am Asesu ac un am Hyrwyddo Annibyniaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol.

Roedd y cwynion ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn bennaf oherwydd materion cyfathrebu. Mewn rhai achosion cydnabuwyd bod bwlch ac fe wnaed trefniadau i helpu i feithrin perthnasau a datrys y problemau. Cafodd un gŵyn am fethu a chwblhau ymchwiliad adran 47 ei godi i gam 2 gan yr achwynydd.

Yn y Gwasanaethau oedolion, roedd yn gŵyn yn ymwneud ag asesiad Amddifadu o Ryddid heb ei wneud ar gyfer unigolyn â oedd yn derbyn cyllid CIC. Roedd tair cwyn ynglŷn â darparwyr gofal, un ynglŷn â monitro cyswllt teuluol, un am fod ond wythnos wedi ei rhoi mewn rhybudd am dynnu gwasanaeth yn ôl, ac roedd y drydedd yn cynnwys amrywiol bryderon ynglŷn â'r darparwr presennol a darparwyr blaenorol. Nid oedd sail i'r un o'r rhain.

Mae pob problem sy'n ymwneud â staff yn cael eu trafod yn briodol gyda'r unigolion o dan sylw.

Roedd un ymchwiliad Cam 2 (Ymchwiliad Ffurfiol) ar gyfer Gwasanaethau Plant.

| | **25 diwrnod gwaith** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2020/21** | | **2021/22** | |
| | **Bodlonwyd** | **Heb ei fodloni** | **Bodlonwyd** | **Heb ei fodloni** |
| **PaTh** | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **GO** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **1** |

Aeth yr achwynydd â'r gŵyn cam 2 ymlaen ar ôl ymateb cam 1. Cwblhawyd yr ymchwiliad gan Archwiliwr Annibynnol a Pherson Annibynnol. Cyfwelwyd yr achwynydd a nifer o aelodau staff ac adolygwyd cofnodion yr achos. Oherwydd argaeledd staff ac archwilwyr roedd oedi yn yr ymchwliad, ac fe hysbyswyd yr

achwynydd o'r hyn a oedd yn digwydd drwy gydol y broses. Yn y diwedd, ni chafodd y gŵyn ei chadarnhau yn bennaf, cafodd un agwedd ei chadarnhau oherwydd cyfathrebu, ac mae hyn wedi ei drin.

Aeth chwe chwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nid aeth yr un gŵyn yn ei blaen.

Rydym wedi dysgu gwersi o'r cwynion a dderbyniwyd ac rydym wedi adolygu a gweithredu arferion lle'n briodol. Rydym wedi gwerthfawrogi mewnbwn defnyddwyr gwasanaeth i'n galluogi i barhau i ddatblygu a chyflenwi gwasanaeth o ansawdd a ddisgwylir ganddyn nhw ac y maent yn ei haeddu.

Derbyniwyd canmoliaeth ar 47 o adegau yn ystod flwyddyn, 27 am Wasanaethau Oedolion a 15 am Wasanaethau Plant a Theuluoedd. Roedd y sylwadau'n canmol gwasanaethau gofal a'r ffordd yr oedd timau ac aelodau staff unigol wedi delio ag achosion penodol.
Mae'r sylwadau wedi cynnwys diolch am empathi, cyngor, natur broffesiynol a chefnogaeth ar adeg anodd. Ymhlith y ganmoliaeth oedd:

- *Rydych yn berson mor wirioneddol garedig a gofalgar, gyda diddordeb go iawn mewn gwneud bywyd pobl yn well, sut bynnag y gallwch. Rydych chi yr hyn a gredaf y dylai Gweithiwr Cymdeithasol ei fod. Gobeithio y bydd peth o'ch goleuni chi yn disgleirio ar eich cydweithwyr, gan eich bod yn esiampl i'ch proffesiwn.*
- *Fel teulu, rydym wedi mynegi i X ein bod yn gwerthfawrogi popeth y mae'n ei wneud ac yn parhau i'w wneud ar ein rhan. Mae mor brin bod rhywun yn dod i'ch bywyd ac yn gwneud cymaint o argraff. Mae ein diolch yn ddiffuant ac rydym wedi gwerthfawrogi ei natur hawddgar, broffesiynol a braf.*
- *Galw i ddweud pa mor ddiolchgar y mae'r teulu cyfan am y prydau cymunedol gan eu bod yn rhan annatod o'r tîm cyfan a ofalodd am ei fam. A dim pryd bwyd yn unig, roeddynt hefyd yn cadw llygad arni, a oedd o help mawr. Roedd y teulu wir yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth.*
- *Roedd ei harhosiad gyda chi mor braf ac fe wnaethoch iddi deimlo mor gyfforddus. Roedd wir yn teimlo fel ei bod yn aros mewn cartref i ffwrdd o gartref*
- *Ni allaf ddychmygu bod gweithwyr cymdeithasol yn cael llawer o glod am y gwaith maent yn ei wneud, ond hoffwn ddiolch i chi a'ch tîm i gyd am bopeth a wnaethoch ar ran xxxx a minnau. Rwy'n gwybod bod gennych waith i'w wneud ond, wir, ni fyddaf byth yn anghofio cymaint rydych wedi fy helpu i a'm teulu drwy gyfnodau anodd iawn.*
- *Yn ystod y cyfnod erchyll, emosiynol anodd iawn yma, mae pawb rydym wedi eu cyfarfod yn y ganolfan wedi dangos caredigrwydd, gofal a dealltwriaeth ac mae hyn wedi ei werthfawrogi yn fawr iawn.*
- *Roedd y teulu yn bositif iawn ynglŷn â'r gweithiwr gofal, ac mae wedi bod yn wych, ac mae'r teulu wedi elwa'n fawr o'i chyfranogiad. Nid ydynt eisiau iddi*

*orffen ei chyfranogiad gan eu bod yn teimlo bod rhywun wedi gwrando arnyn nhw.*

- *Cyfarfod positif iawn, A diolch am bopeth rydych wedi ei wneud, nid yn unig ar ran y plant a ni fel unigolion, ond rydych wedi helpu i roi ein perthynas yn ôl ar y llwybr iawn. Ac rydych wedi helpu xxxx gymaint, mewn ffyrdd na allech eu deall*.

Yn 2022/23 a thu hwnt bydd y tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn parhau i weithio'n agos gyda rheolwyr i sicrhau fod y broses gwynion yn parhau i fod yn gyson a theg. Mae'r Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn mynychu cyfarfodydd briffio yn rheolaidd gyda phenaethiaid y gwasanaeth sy'n help i nodi problemau a dysgu prosesau newydd ac unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu ddisgwyliadau.

## 6. <u>Casgliad</u>

Mae 2021/22 wedi bod yn flwyddyn na welwyd mo'i thebyg. Rydym i gyd wedi ymateb i'r her gan ddangos cryfder, teyrngarwch, proffesiynoldeb, a natur benderfynol y staff yn llwyr, ym mhob maes i gefnogi'r bobl fwyaf fregus yn Nhorfaen sy'n wynebu'r amseroedd gwaethaf. Mae staff wedi mynd cam ymhellach i sicrhau bod darparwyr a phartneriaid yn gallu ymateb yn y ffordd orau bosibl i ddarlun sy'n newid yn barhaus ac rydym wedi adeiladu ar ein perthynas gref gyda'n darparwyr gofal. Mae presenoldeb parhaus covid yn ein cymuned a'r adferiad angenrheidiol wedi parhau i fod yn anodd, heb lawer o amser yn 2021/22 i stopio a meddwl. Rydym serch hynny wedi parhau i ymateb a defnyddio partneriaethau a pherthnasau drwy ardal yr awdurdod lleol ac ar draws y rhanbarth. Mae ein cymunedau hefyd wedi profi a wynebu heriau arwyddocaol ac, ynddynt eu hunain, wedi ymateb gyda chefnogaeth ac wedi dangos gallu i ddatblygu atebion.

Rydym wedi parhau i ymwreiddio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy sicrhau bod egwyddorion asesiad seiliedig ar gryfderau a chymryd risgiau positif yn sylfaen i'n dull o weithio.

Mae ein rôl yn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn parhau i fod yn flaenoriaeth wleidyddol a chorfforaethol ar gyfer y Cyngor. At y dyfodol, rydym eisiau canolbwyntio ar barhau i gymryd penderfyniadau seiliedig ar gryfderau sy'n hyrwyddo amddiffyn yn ail-gydbwyso sefyllfa pobl sy'n agored i niwed ac yn creu annibyniaeth er mwyn i'n gwasanaethau fod yn rhai sy'n galluogi ac sydd lleiaf ymwthiol ag y bo modd.

Mae'r gyfarwyddiaeth yn parhau i fod yn hollol ymroddedig i gadw'r defnyddiwr gwasanaeth wrth graidd popeth a wnawn, ac rydym yn parhau i weithio ar draws ystod eang o gymunedau gydag amrywiaeth eang o anghenion yn ardal y cyngor, gan ddangos dull ymatebol.

Ein hadnodd gorau bob amser fydd ein staff a'n cymunedau. Wrth fynd i mewn i 2022/23 a thu hwnt, rwy'n awyddus ein bod yn defnyddio'r cryfderau, arbenigrwydd, gwybodaeth ac angerdd i alinio ein gwasanaethau gydag anghenion ein cymunedau, er mwyn galluogi lefelau uwch o annibyniaeth a pharhau i ddatblygu yn unol â'r anghenion newidiol a'r heriau a fydd yn ein wynebu yn y blynyddoedd i ddod.

I gloi, mae'r gyfarwyddiaeth wedi gweld ac ymateb i lawer o heriau yn ystod 2021/22. Mae'r gallu i ymateb i'r rhain a chyflawni wedi ei wneud yn bosibl gan ymrwymiad a chydweithredu ar draws yr awdurdod lleol ac asiantaethau partner. Rydym yn gwybod bod amrywiol heriau yn parhau i ddod i'r amlwg a byddant yn cael effaith ar gyflenwi gwasanaeth, ond ein nod yw lliniaru yn erbyn y rhai drwy barhau i adolygu a chynllunio ein gwasanaeth.

Rwy'n ymroddedig y bydd fy nghyfnod yn y swydd hon yn gweld datblygiadau pellach, a fydd yn ein galluogi i reoli'r galw a chyflenwi gwasanaethau effeithiol drwy gyfrwng gwaith partneriaeth, yn gweithio ar draws cyfarwyddiaethau yn yr awdurdod lleol, gydag asiantaethau partner, y trydydd sector a chyda'r cymunedau eu hunain.

**Jason O'Brien**
**Prif Swyddog Gweithredol Gofal Cymdeithasol a Thai**
**(CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL) Medi 2022**

**Cynhyrchwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

**Medi 2022**

## Cael hyd i Wybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol

Mae'r Adroddiad Blynyddol yma ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill o wneud cais.

Cysylltwch â Gofal Cwsmeriaid ar (01495) 762200.

Os oes angen gwybodaeth fwy manwl arnoch chi mewn perthynas ag unrhyw beth yn yr adroddiad yma, cysylltwch â:


Eunice Jones
Rheolwr Grŵp
01495 742825
E-bost: eunice.jones@torfaen.gov.uk